

Trwy ebost

Chwefror 2018

Cyngor gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol: Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint

Annwyl Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint a Swyddogion Cynorthwyl,

Diolch am ofyn am fy nghyngor ar sut y gallech gymryd camau i gwrdd â'ch amcanion llesiant drafft. Darganfu fy nhîm bod siarad â chi'n gyson wedi bod yn ddefnyddiol ac wedi rhoi dealltwriaeth o'r modd yr ydych yn gweithio gyda'ch gilydd fel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC). Fel y byddant wedi ei drafod gyda chi, roeddwn yn awyddus i fy nghyngor fod yn ddefnyddiol i chi a'r cyd-destun yr ydych yn gweithio o'i fewn, felly, gobeithio eich bod chithau hefyd o'r farn bod y cysylltu rhyngom wedi bod yn ddefnyddiol ac wedi rhoi peth arweiniad i chi ar hyd y ffordd.

Diolch am anfon gwybodaeth ar y themâu a'r blaenoriaethau yr ydych wedi bod yn ffocysu arnynt a chopi o'r cynllun drafft. Rwyf yn seilio'r cyngor hwn ar yr hyn yr ydych wedi ei amlinellu hyd yn hyn. Mae fy nghyngor mewn dwy ran, y gyntaf wedi ei bwriadu i'ch helpu i ystyried sut y gallwch ddefnyddio'r pum dull o weithio i herio 'busnes-fel-arfer' a maxsimeiddio eu cyfraniad i'r saith nod llesiant cenedlaethol yn effeithiol. Mae ail ran fy nghyngor yn seiliedig ar eich blaenoriaethau, mae'n rhoi anogaeth, adnoddau a chysylltiadau i'ch helpu i ddangos drwy eich cynllun llesiant eich bod wedi defnyddio'r pum dull o weithio a'r saith nod llesiant i lunio eich camau. Nid rhoi fy marn ar eich amcanion llesiant neu eich cynllun drafft yw pwrpas y cyngor hwn. Mae'r rhain i'w penderfynu a'u perchenogi gennych chi, fel BGC cydweithredol.

Buaswn yn eich annog i ddarlhen hwn a'm hymateb i'ch asesiad llesiant gyda'i gilydd. Roeddwn yn awyddus i fy adolygiadau o'r asesiadau 'edrych ymlaen' yn hytrach nag 'edrych yn ôl', gan eich helpu i ystyried sut i fynd ati i asesu a chynllunio llesiant yn barhaus. Fel y gwyddoch, yn ddiweddar cyhoeddais hefyd ['Llesiant yng Nghymru: Cynllunio heddiw ar gyfer gwell yfory'](#) sy'n amlgu canfyddiadau allweddol ac argymhellion ar gyfer BGCau a chyrrff cyhoeddus ar feysydd allweddol lle mae angen newid cyn y gellir gwneud gwell penderfyniadau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Bwriedir hefyd i'r ddau adnodd hwn weithredu fel cyngor i chi.

Mae eich themâu drafft yn cynnwys:

1. Diogelwch Cymunedol:
  - o Darparu Cymdogaethau Diogelach.



- Adnabod arwyddion a symptomau Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a darparu ymateb effeithiol.
  - Mynd i'r afael â Chyffuriau ac Alcohol.
  - Lleihau Aildroseddu.
2. Llesiant a Byw yn Annibynnol:
- Darparu gwybodaeth a chymorth i bobl i fod yn gyfrifol am eu hiechyd eu hunain ac iechyd eu teuluoedd.
  - Ymyriadau wedi eu targedu lle mae gan unigolion a theuluoedd y mwyaf i'w ennill.
  - Darparu mwy o wasanaethau'n agosaf at y cartref.
  - Adeiladu a chryfhau'r Sector Gofal.
3. Cydnherthedd Cymunedol:
- Galluogi ac ysbrydoli cymunedau ar draws Sir y Fflint i ddatblygu cymunedau hyderus, cydlynol, sy'n meddwl am y dyfodol.
  - Datblygu a chyd-drefnu ymagwedd ar draws gwasanaethau cyhoeddus sy'n sicrhau y bydd sgiliau ychwanegol a chapasiti'n aros gyda'r gymuned honno pan fydd unrhyw wasanaethau cyhoeddus wedi eu gweithredu gyda chymuned. Mae'r ymagwedd hon yn cychwyn gyda mynd i'r afael ag ymddygiad nad yw'n cynnwys ymarfer corff ymhlith plant a phobl ifanc, drwy alluogi unigolion i wneud newidiadau cadarnhaol i'w ffyrdd o fyw a gwelliannau i'w hiechyd cyffredinol.
  - Cyd-drefnu ymagwedd ar draws darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus sy'n maxsimeiddio effaith manteision cymunedol.
  - Datblygu ymhellach fodolau perchnogaeth gymunedol yn cynnwys Cynllun Casglu a Throsoglwyddo Credydau, mentrau micro cymunedol a chyfranddaliadau cymunedol.
4. Economi a Sgiliau:
- Safleoedd Strategol (cyflogaeth a thai).
  - Seilwaith trafndiaeth a gwasanaethau.
  - Tyfu busnes ac arloesedd.
  - Sgiliau, diweithdra a diwygio cymdeithasol.
5. Amgylchedd:
- Seilwaith gwyrdd.
  - Gwarchod a gwella'r amgylchedd.
  - Amddiffynfa rhag llifogydd.
  - Y newid yn yr hinsawdd.

Deallaf fod y blaenoriaethau hyn sy'n dod i'r amlwg yn adeiladu ar waith cyfredol y Bwrdd a darganfyddiadau'r asesiad llesiant. Hoffwn bwysleisio nad cynnwys holl flaenoriaethau corfforaethol eich sefydliad neu gydymffurfio â phartneriaethau cyfredol a dyletswyddau statudol yw pwrpas pennu amcanion a champau. Yn hytrach, mae'n rhaid i FGCau ddefnyddio asesiadau llesiant i ystyried ble gallant gael effaith pwerus ar y cyd. Fel y cyfryw, buaswn yn eich annog i werthuso'n feirniadol eich themâu presennol a sicrhau eu bod yn wahanol i'r pethau yr oeddech

eisoes yn eu gwneud, ac yn herio busnes-fel-arfer drwy ddefnyddio'r pum dull o weithio i facsimeiddio eich cyfraniad i'r saith nod llesiant.

Yn fy adborth i'ch asesiad llesiant, dywedais fod angen i chi ystyried y rhyngberthynas rhwng materion a'r gwahaniaethau a brofir ar draws Sir y Fflint sydd o berthnasedd arbennig iddi. Bydd hyn yn eich helpu i ddrafftio amcanion a chamau, i feddwl yn wahanol, i fod yn uchelgeisiol ac ail-bwrpasu adnoddau. Mae angen i chi ddangos eich bod wedi archwilio'r modd yr ydych yn cyfrannu tuag at nodau llesiant a bydd hyn yn rhoi i chi ddarlun mwy holistig o'r mater yr ydych yn ceisio ei ddatrys, yn egluro eich rolau fel sefydliadau sy'n aelodau o'r BGC a'ch galluogi i facsimeiddio'r ystod o adnoddau a chyfleoedd y gallwch fanteisio arnynt i'ch helpu i ddod o hyd i ddatrysiadau. Bydd hyn yn anochel yn golygu rhoi'r gorau i rai pethau. Mae angen i chi ddangos eich bod wedi archwilio'r modd yr ydych yn cyfrannu tuag at yr holl nodau llesiant gan ddefnyddio diffiniadau cyfreithiol. Bydd gwneud hyn yn rhoi i chi ddarlun mwy holistig o'r mater yr ydych yn ceisio ei ddatrys, yn egluro eich rolau fel sefydliadau sy'n aelodau o'r BGC a'ch galluogi i facsimeiddio'r ystod o adnoddau a chyfleoedd y gallwch fanteisio arnynt i'ch helpu i ddod o hyd i ddatrysiadau.

Fel y bydd fy nhîm wedi egluro i chi, mae gen i ddiddordeb yn y modd yr ydych yn defnyddio'r Ddeddf fel ffordd o'ch galluogi i weithio gyda'ch gilydd yn wahanol. Felly rwy'n dymuno gweld manylion yn eich cynllun llesiant am yr hyn yr ydych yn awr yn ei wneud yn wahanol i'r hyn yr oeddech yn arfer ei wneud, a sut yr ydych yn gweithio'n wahanol fel sefydliadau unigol ac ar y cyd, gan ofyn i chi eich hunain yn gyson 'beth fedrwn ni ei wneud gyda'n gilydd' i gylchdroi rhai o'r problemau parhaol sydd wedi gwreiddio nad ydynt wedi cael y sylw priodol gan eich gweithrediadau presennol.

### ***Mabwysiadu gwahanol ddulliau o weithio i gymryd camau i gwrdd â'ch amcanion drafft:***

Rwy'n pwysleisio i bob BGC nad 'busnes-fel-arfer' yw pennu amcanion a chamau. Rydym eisoes, yn y gorffennol, wedi llunio themâu a blaenoriaethau ac wedi ysgrifennu cynlluniau sy'n dangos yr hyn yr ydym yn ei wneud. Mae gwireddu uchelgeisiau'r Ddeddf hon yn ymwneud â 'beth' ac â 'sut' h.y. beth ydych chi'n ei wneud i gyfrannu tuag at ein cydweledigaeth o'r saith nod llesiant cenedlaethol? Mae'r nodau'n cydnabod bod datblygu cynaliadwy'n cysylltu'r amgylchedd yr ydym yn byw ynddo, yr economi yr ydym yn gweithio ynddo, y gymdeithas yr ydym yn ei mwynhau a'r diwylliannau yr ydym yn eu rhannu, â phobl ac ansawdd eu bywydau, felly beth ydych chi'n mynd i wneud gyda'ch gilydd sy'n wahanol? A sut ydych chi'n cymhwysu'r egwyddor datblygu cynaliadwy i lunio eich gweithredu yn Sir y Fflint? Sut ydych chi'n mynd i weithio gyda'ch gilydd yn wahanol?

Mae addasu eich dulliau o weithio yn y modd hwn yn gofyn am ymagwedd sydd yn ei hanfod yn wahanol. Rwyf wedi cynghori pob BGCau i roi gofod ac amser o'r neilltu i gwestiynu a yw'r ymagweddau presennol tuag at gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus yn addas ar gyfer y dyfodol ac archwilio pwysau allweddol a thensiynau sy'n codi wrth gyflawni pob un o'ch amcanion. Mae [Saerñiaeth Dyfodol Cynaliadwy](#), Academi Cymru'n dweud yn glir sut mae angen i ymddygiad arweinyddion newid. Gallech ddefnyddio'r fframwaith hwn i'ch helpu i archwilio ymddygiadau eich bwrdd chi eich hunain a sut y gallwch ddatblygu.

Yn ymarferol rwyf wedi cyngori bod BGCau yn trefnu cyfarfod neu greu sesiynau i drafod pob un o'u hamcanion drafft. Un o fy argymhellion yn yr adroddiad [‘Llesiant yng Nghymru: Cynllunio heddiw ar gyfer gwell yfory’](#) yw ein bod yn rhoi'r gorau i edrych ar FGau fel cyfarfod pwyllgor o dan arweinyddiaeth awdurdod lleol. Yn hytrach mae angen i aelodau adeiladu cysylltiadau cryfach a chael gwell dealltwriaeth o ysgogiadau ei gilydd er mwyn herio ei gilydd a chynnal trafodaeth ddidwyll am y tensiynau rhwng eu meysydd darpariaeth. Mewn rhai ardaloedd, mae rhai cyfarfodydd BGCau yn awr ar ffurf gweithdai, sy'n cael eu cynnal yng ngweithleoedd ei gilydd neu mewn safle sy'n berthnasol ar gyfer y drafodaeth. Gall Cadeirydd y BGC, sut a ble mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal a natur cyfarfod gael effaith ar newid ffyrdd o feddwl.

Mae maxsimeiddio eich cyfraniad i'r saith nod llesiant yn ei gwneud yn ofynnol i chi fod yn eofn a dewr wrth gwestiynu strwythurau presennol a ddefnyddir i wneud penderfyniadau a darpariaethau gweithredol. Cefais fy nghalonogi i glywed eich bod eisoes yn cynnal y sgysiau hyn fel BGC am y modd y gallwch weithio'n wahanol; fodd bynnag nid yw'n glir sut mae eich cynigion, drwy eich themâu a'ch briffio, yn cynrychioli'r newid allweddol sydd ei angen i gwrdd â dyheadau'r Ddeddf. Rwyf felly'n gofyn i chi ystyried ymhellach pa ymagweddau newydd eraill y byddwch yn eu mabwysiadu ar y cyd i gwrdd â'ch amcanion a maxsimeiddio eich cyfrannid i'r saith nod llesiant cenedlaethol. Ar gyfer eich cynllun llesiant, buaswn yn hoffi deall sut mae'r pum dull o weithio wedi llunio eich ymagwedd, sut yr ydych wedi ystyried y cyfraniad yr ydych yn ei wneud ar hyn o bryd (ac y gallech ei wneud) i bob un o'r nodau llesiant, mewn perthynas â phob amcan a chmau drafft yr ydych yn eu pennu. Bydd y cwestiynau isod gobeithio yn eich helpu i ddangos hyn.

***Buaswn yn eich cyngori bod angen i chi ddangos sut mae'r BGC wedi ystyried y canlynol mewn perthynas â phob un o'ch amcanion:***

- **Hirdymor:** Beth yw eich dealltwriaeth o dueddiadau hirdymor, cyfleoedd, peryglon a senarios tebygol ar gyfer y mater hwn? Beth ydynt, ac a ydych wedi archwilio eu heffaith ar y camau y byddwch yn eu cymryd? Oes yna fylchau ar hyn o bryd yn eich data neu eich dealltwriaeth? Beth sydd angen ei weld ymlaen llaw neu pa wybodaeth am dueddiadau yn y dyfodol sydd eu hangen arnoch i ddeall y mater yn well? Pa allu, hyder ac arbenigedd sydd arnoch eu hangen i lenwi'r bylchau mewn gwybodaeth? Efallai y byddwch yn dymuno ystyried datblygu senarios y dyfodol neu ddefnyddio dulliau eraill i'ch helpu i fframio eich amcanion a'ch gweithredu ar gyfer y dyfodol. Gall y rhain fod yn hynod bwerus ar gyfer cychwyn trafodaeth am y cyfleoedd a'r risgiau a'r gweithredu y gallwn ei gyflawni ar gyfer yr hirdymor.

I drwytho'ch gweithredu, bydd angen i chi fapio ac ystyried tueddiadau'r dyfodol yn ddigonol ar gyfer pob un o'ch nodau. Mae fy swyddfa yn gweithio gydag eraill i adeiladu gallu yn y maes hwn, ac fel y gwyr eich tîm cynorthwyol, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ychwanegu at adnoddau'r adroddiad 'Tueddiadau'r Dyfodol', y dylech fanteisio arno i'r eithaf ac sydd ar gael drwy 'Objective Connect' a thrwy gysylltu â David Thomas. Mae adroddiad [Oxford Martin School 'Now for the long-term'](#) yn dangos tueddiadau'r dyfodol yn fyd-eang a chenedlaethol, tueddiadau y bydd angen i ni i gyd ymateb iddynt wrth weithredu datblygu cynaliadwy.

- **Atal:** Wrth ystyried y mater hwn, a oes gennych chi ddealltwriaeth o'r hyn yr ydych yn ceisio ei atal? Beth sydd wrth wraidd y mater a phryd fyddai'r amser gorau i ymyrryd? Ydych chi'n glir am ba fath o atal sydd ei angen: atal sylfaenol h.y. ceisio atal rhywbeth rhag digwydd; atal eilaidd h.y. atal rhywbeth rhag gwaethygu; neu atal trydyddol h.y. lliniaru effaith rhywbeth â ganddo effeithiau parhaus. Dyma'r gwahaniaeth rhwng annog rhywun i wisgo helmed feicio (atal niwed i'r pen cyn iddo ddigwydd); gosod rhywun yn yr ystum adferol os yr ydynt wedi syrthio oddi ar eu beic (atal eilaidd, sef atal niwed rhag gwaethygu) a chwmsela yn dilyn y ddamwain (atal trydyddol i helpu anafiadau parhaus rhag gwaethygu).

Sut ydych chi'n defnyddio eich tystiolaeth leol i ddeall y mesurau atal mwyaf effeithiol? Bwriad [Canllaw Ymarfer Defnyddio tystiolaeth ymchwil NESTA](#) yw helpu cyrff cyhoeddus i gasglu tystiolaeth i drwytho eu penderfyniadau. Mae llawer o FGCau heb ddefnyddio'u hasesiadau i ddeall yn drwyadl y sefyllfa bresennol a graddfa a natur yr ymateb sy'n ofynnol. Rwy'n gwerthfawrogi nad ydych eto'n gwybod beth yw'r darlun cyfan, ond hoffwn weld pob BGC yn archwilio sut y maent yn chwalo cylchoedd a thwrio'n ddyfnach i mewn i ddata i weld y negeseuon sydd ymhlyg yn y data i ddeall yn well achosion ac effeithiau materion allweddol a thueddiadau, i drwytho eich camau.

- **Cydweithio:** Gwn fod gennych ystod o bartneriaid fel BGC, ond mae'n bwysig fod y bobl sy'n eistedd o gwmpas bwrdd y BGC yn medru dwyn gyda hwynt yr ystod orau o fewnwelediadau, heriau adeiladol, data a datrysiadau i'r BGC. Buaswn yn eich cyngori i roi amser o'r neilltu i ystyried a yw eich strwythurau sefydliadol a strwythurau eich partneriaethau yn addas ar gyfer y pwrpas. A yw'r bobl iawn gennych o gwmpas y bwrdd, ar y lefel iawn ar gyfer gwneud penderfyniadau ar unrhyw fater? Pwy arall allai fod arnoch ei angen i gydweithio gyda chi i'ch helpu i ddeall hyn yn well? Fel yr argymhellwyd yn fy adroddiad ar yr Aseidiadau Llesiant, mae hwn yn amser da i adolygu aelodaeth wahoddedig y BGC ac ystyried pwy yw'r bobl 'anarferol' y gall y bydd angen i chi weithio gyda hwynt i gymryd camau i gwrdd â'r amcan hwn?

Wrth gyflawni'r camau, dylech edrych i weld sut allai eich sefydliadau gydweithio'n well. Sut fedrwc chi weithio ar draws gogledd Cymru i ddarparu mentrau arbennig? Bydd angen i chi ddangos sut mae eich BGC yn ystyried y camau sydd angen i chi eu cymryd gyda'ch gilydd ac ar draws ffiniau sefydliadol er mwyn cwrdd â'ch amcanion yn effeithiol. Gallai hyn gynnwys cyd-leoli staff, chwalo strwythurau traddodiadol, trefnu cyfnewid swyddi a secondiadau ac o bwys mawr, rannu adnoddau. Byddaf yn dymuno gweld sut yr ydych wedi ystyried y manteision hyn a sut mae'r camau y byddwch yn eu cymryd yn eich symud tuag at gyflawni'r cydweithio hyn.

- **Integreiddio:** Ar gyfer pob amcan, sut ydych chi'n mynd i symud i ffwrdd o'r arfer o ddim ond gwneud rhywbeth sy'n cwrdd â'r amcan, ac yn hytrach, ddangos eich bod yn cymryd camau sy'n maximeiddio eich cyfraniad i bob un o'r nodau? Roeddwn yn falch i glywed eich bod wedi cychwyn, yn eich trafodaethau, ystyried y rhyng-gysylltu rhwng blaenoriaethau sy'n ymddangos, i helpu i drwytho'ch penderfyniadau am y camau mwyaf effeithiol a buaswn yn eich annog i barhau i wneud hyn yn fwriadol ac eglur. Yn hytrach nag edrych ar y mater mewn dull traddodiadol, cyffredinol, ydych chi wedi edrych ar y

diffiniad ar gyfer pob un o'r nodau i ehangu eich dealltwriaeth o lesiant ar gyfer y mater hwn a'r cyfleoedd a allai fod ar gael ar gyfer cwrdd â'r nodau hyn drwy bob un o'ch nodau? Pa mor dda ydych chi'n deall y cyfraniad a wneir gan eich sefydliad ar hyn o bryd i'r nod hwn? Ac a ydych chi'n deall pa mor wahanol yw'r cyfraniad sydd angen i chi ei wneud i ddwyn yr amcan hwn yn ei flaen?

Sut fedrwch chi gynllunio'r hyn sy'n digwydd mewn manau eraill yn eich sefydliad, y strategaethau a'r cynlluniau ar lefel rhanbarthol a chenedlaethol, i gysylltu ag eraill wrth gyflawni'r nod hwn? Fel BGC ydych chi eto wedi cydnabod y rhwystrau a'r tensiynau sydd wedi codi a pha gamau y gallwch chi (neu eraill) eu cymryd i'w dileu? Pwy arall sydd ei angen o gwmpas bwrdd y BGC i'ch helpu i gydgyssylltu'r broses o wneud penderfyniadau a gwella llesiant ar gyfer y mater hwn?

- **Ymgyfraniad:** Mynegais yn fy adborth i'ch asesiad llesiant fy mod yn dymuno gweld ymgyfrannu yn mynd tu hwnt i'r ymgynghori arferol ac y byddai'n bwysig i ennyn ymgyfraniad pobl mewn ffordd wahanol wrth wneud eich penderfyniadau llesiant. Rwy'n dymuno gweld BGCau yn ffocysu'n barhaol ar ennyn ymgyfraniad pobl yn natblygiad amcanion llesiant, a thu hwnt i gyhoeddi eu cynlluniau. Hoffwn weld yn eich cynllun llesiant sut yr ydych y cymryd camau i ddeall profiadau bywyd pobl yn eich ardal a sut mae hyn yn llunio eich gweithredu? Sut ydych chi'n ymroi yn weithgar i ddarganfod gwell dulliau o ennyn ymgyfraniad pobl yn y broses benderfynu? Sut ydych chi'n gweithio gydag aelodau'r gymuned i gwrdd â'r camau hyn? Fel gyda Bwrdd Gofal Cymdeithasol Cymru, pa ddewisiadau sydd yna i ennyn ymgyfraniad pobl a phrofiad o fywyd go iawn ar Fyrddau a grwpiau partneriaeth?

Mae gen i rôl i adnabod a lleihau rhwystrau, ond dim ond chi - fel uwch arweinwyr, fedr beri i'r newid hwn ddigwydd, a chreu BGC sydd mewn gwirionedd yn gwireddu newid. Rwy'n ymwybodol y gellir gweld y Ddeddf fel un peth arall i'ch sefydliadau gydymffurfio â hi a'r BGC fel cyfarfod arall sy'n rhaid i chi ei fynychu, ond mae angen i'r arweinyddiaeth hon fod yn treiddio i bob lefel o'ch sefydliad. Mae cysondeb mewn cynrychiolaeth yn y BGC a sut mae negeseuon yn cael eu dwyn yn ôl o'r Bwrdd i'ch sefydliadau chi yn hanfodol ar gyfer adeiladu cysylltiadau a chreu gweithrediadau. Mae cyfleu pam mae gwaith y BGC yn bwysig i'ch timau uwch reoli a defnyddio'r cynllun llesiant i herio arferion presennol o fewn eich adrannau chi eich hunain yn hollbwysig ar gyfer newid diwylliant a herio eich rheolwyr i weithio'n wahanol gan gadarnhau ei bod yn 'ddiogel i fethu.'

Wrth wneud hynny bydd angen i chi ddangos sut mae pob un o'ch sefydliadau'n cymryd pob cam rhesymol wrth ymarfer eu swyddogaethau i gwrdd ag amcanion y BGC. Rwy'n gwerthfawrogi y gallai hyn fod yn heriol yn ystod cyfnodau cyntaf gweithredu'r Ddeddf gan fod amcanion unigol cyrff cyhoeddus wedi eu gosod. Felly, tra fy mod yn deall bod ar FGCAu a chyrrff cyhoeddus angen amser i weithio tuag at alinio, byddaf yn dymuno sicrhau nad yw gwaith y BGC yn cael ei weld fel rhywbeth ar wahân i flaenoriaethau'r cyrff sy'n aelodau ohono neu gyfarfodydd partneriaethau eraill ac y bydd hyn yn cael sylw nes ymlaen wrth i ni symud drwy gyfnodau cyntaf gweithredu'r Ddeddf.

Mae'n dilyn bod cydlynu'r gwaith hwn yn gofyn am gydnabyddiaeth pob un ohonoch fel aelodau'r BGC. A yw strwythurau presennol yn addas ar gyfer y pwrpas? Mae gen i ddi-ddordeb i weld sut mae gwahanol FGau yn cael eu cynorthwyo, ac ymddengys, pan fydd gwaith yn aml-asiantaeth, ac yn cael adnoddau ac ymrwymiad gwahanol bartneriaid, bod cydweithio ac integreiddio ar draws adrannau'n dod yn haws. Gwn fod yna bartneriaid sy'n dal yn amharod i gydweithio ar bob lefel ar draws Cymru, sy'n hollbwysig ar gyfer cyflawni unrhyw syniad o newid. Mae rhai BGCau eisoes yn mabwysiadu trefniadau gwaith mwy clos, tîm rhithwir aml-asiantaeth ag uwch-arweinydd neu secondiadau mwy ffurfiol a chyd-leoli. Mae yna nifer o adnoddau a allai fod yn ddefnyddiol, megis [Designing Multi-Agency Partnerships: Leading Culture Change](#) a [Stepping up: a framework for public sector leadership on sustainability](#). Bydd hyn yn ei gwneud yn angenrheidiol i chi, pobl mewn safleoedd arweinyddiaeth, i chwarae eich rhan a bod yn ddewr wrth sbarduno'r newidiadau angenrheidiol.

### ***Cyngor ar sut y gallech gymryd camau i gwrdd â'ch amcanion drafft:***

Mae ail adran fy nghyngor yn ymroi i'ch helpu i ddangos drwy eich cynllun llesiant eich bod wedi defnyddio'r pum dull o weithio a'r saith nod llesiant i lunio eich camau. Mae hyn yn seiliedig ar y themâu yr ydych wedi eu rhoi i fy nhîm a'r bwriad yw rhoi syniadau, gwybodaeth a chysylltiadau i chi a allai helpu i ddangos sut yr ydych wedi ystyried y camau y byddwch yn eu cymryd yng nghyd-destun Sir y Fflint. Bydd defnyddio'r pum dull o weithio yn gyson i herio eich ymagwedd arferol ac ymroi i facsimeiddio eich cyfraniad i'r saith nod llesiant ym mhob un o'ch amcanion, yn rhoi i chi fframwaith newydd ar gyfer cynllunio a chyflawni sy'n eich herio chi a'ch sefydliadau i wneud pethau'n wahanol.

### ***Blaenoriaeth 1 – Diogelwch Cymunedol:***

Ar gyfer pob un o'ch amcanion a chamau, bydd angen i chi ddangos eich bod wedi ystyried perthnasedd hyn i Sir y Fflint ac ar draws gwahanol gymunedau - tu allan i ddarpariaeth gyfredol gwasanaethau cyhoeddus. Sut fedr wch chi weithio gyda'ch gilydd, gan ddefnyddio'r saith dull o weithio fel ffrâm, i ddeall sut y gellir darparu gwasanaethau'n wahanol? Mae eich asesiad llesiant yn edrych ar drosedd ar sail ardal, a bydd angen i chi ddeall sut mae hyn yn gwahaniaethu ar draws Sir y Fflint er mwyn asesu'n briodol y gweithredu sydd angen i chi ei fabwysiadu. Gall y bydd angen i chi gydweithio gyda phartneriaid i rannu gwybodaeth a data ar y math o faterion sy'n berthnasol mewn ardaloedd arbennig. A yw'r achosion hyn yn cael eu deall yn iawn? Gallai ennyn ymgyfraniad y bobl sy'n byw yno eich helpu i ennill darlun cliriach o baham mae yna broblemau, ond hefyd roi i chi fewnwelediad i asedau'r gymuned honno a rhoi datrysiadau i chi.

Mae mynd i'r afael â throedd, yn arbennig yr hyn sydd wrth ei gwraidd, yn amlwg yn gymhleth, ond mae'r pum dull o weithio yn rhoi cynllun penodedig ar gyfer edrych ar broblemau a fedr roi ffocws i chi, fel BGC. Bydd angen i chi ystyried sut y gallwch fabwysiadu ymagwedd ataliol ar draws eich sefydliad - pa sefydliad sydd fwyaf addas i ymyrryd yn gynt yn y cylch trosedd ac yn wir ymlaen llaw i atal rhai materion rhag digwydd? Fel gwasanaethau cyhoeddus, rydym yn aml yn delio â symptomau trallod, trosedd, camddefnyddio sylweddau, materion tai, trais domestig, ymddygiad gwrthgymdeithasol yn hytrach na'r achosion sydd wrth eu gwraidd. Bydd gwella dulliau

ymyrryd drwy integreiddio gwasanaethau, gwrando ar ble mae pobl angen cymorth neu ble mae ganddynt bryderon, ac atal materion rhag gwaethygu yn hanfodol. Bydd gwneud newidiadau i'ch gwasanaethau hefyd yn cysylltu â'ch themau ar lesiant ac ar gymunedau diogelach.

Mae gwaith [Iechyd Cyhoeddus Cymru ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod](#) yn dangos yr effaith y gall profiadau niweidiol yn ystod plentyndod eu cael ar gwrs bywyd, gan greu cylch o ganlyniadau gwael. [Amcangyfrifir bod ymyrraeth hwyr ar gyfer pobl ifanc yn costio £17bn y flwyddyn i Loegr a Chymru](#); (£6 biliwn ar amddiffyn a diogelu plant, £5.2 biliwn ar droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, £3.7biliwn ar anweithgarwch economaidd pobl ifanc, £680 miliwn ar absenoldebau a gwaharddiadau o'r ysgol, £610 miliwn ar anafiadau i blant a phroblemau iechyd meddwl, a £450 miliwn ar gamddefnyddio sylweddau ymhlith pobl ifanc). Yn wir mae'r gwaith archwilio a wnaed gennych wedi darganfod bod [30 teulu yn Sir y Fflint yn costio £3miliwn y flwyddyn i'ch sefydliadau](#). Mae'r ffrydiau gwaith a awgrymir gennych ar gyfer yr maes blaenoriaeth hwn yn adweithiol ac angenrheidiol, e.e cynyddu hyder wrth adrodd a mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau, ond buaswn yn eich annog i edrych ar hyn ymhellach o bersbectif ataliol. Rwy'n dymuno gweld eich sefydliadau chi, yn hytrach na dim ond Cyngor Heddlu Gogledd Cymru yn cydnabod ei bod yn rhan o'u cyfrifoldebau i atal canlyniadau gwael.

Mae'r ffordd yr ydym yn darparu gwasanaethau cyhoeddus ar hyn o bryd yn aml yn golygu ein bod yn methu cysylltu materion, yn methu integreiddio a gweld arwyddion sefyllfa sy'n gwaethygu. Rydym yn delio â phobl mewn categorïau twt 'defnyddwyr-gwasanaethau', megis 'dioddefwr camdriniaeth ddomestig', 'troseddwr ymddygiad gwrthgymdeithasol', un sy'n camddefnyddio sylweddau', 'tenant trafferthus' ac yn aml, felly, yn methu creu ymateb integredig, ataliol a holistig i broblemau. Mae'r gwaith yr ydych wedi bod yn ei wneud ar ganolfan ymyrraeth gynnar yn Sir y Fflint yn gam cadarnhaol yn y broses o chwalu'r seilos ac ymroi i weithio gyda theluoedd mewn dull mwy ataliol. Dylai'r math hyn o weithio ar y cyd gael ei adlewyrchu yn eich cynllunio llesiant fel BGC.

Mae eich gwaith ar gyflwyno canolfan ymyrraeth gynnar yn dangos, yn anffodus, bod cylchoedd yn parhau i mewn i'r genhedlaeth nesaf. Mae mabwysiadu ymagwedd ataliol tuag at hyn yn golygu cydweithio ar bob cyfnod o gwrs bywyd. Er enghraifft, dengys gwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru ar y [1000 diwrnod cyntaf](#) y manteision i bob rhan o lesiant, y gellid eu sylweddoli drwy fuddsoddi ym mywyd plentyn o'r cychwyn cyntaf. Sut fedrai gwasanaethau cyhoeddus orfod newid os byddwch yn dargyfeirio eich buddsoddiad. Beth a olyga hyn yng nghydstun cymunedau yn Sir y Fflint? Mae newid amgylchiadau plant a phobl ifanc sy'n tyfu i fyny gyda Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn gofyn am ffocws ar yr holl system. Mae'n bwysig nid yn unig i bobl a'r rhai sy'n gweithio gyda hwynt i fod yn ymwybodol o arwyddion Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a medru mabwysiadu ymagwedd wybodus am drawma, a hefyd sicrhau bod y gwasanaethau hynny sy'n ymateb ar hyn o bryd i deuluoedd a Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn ateb y gofyn ar gyfer atal profiadau niweidiol parhaus mewn teulu. Rwyf yn falch i weld eich bod wedi cydnabod nodweddion allweddol Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (camddefnyddio sylweddau a thrais domestig) a buaswn yn eich annog hefyd i ystyried sut y gellir cymhwysu'r lens ar gyfer atal Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod i'ch thema ar leihau troseddu (mae carchariad rhieni'n cael ei adnabod fel Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod) a sut y gallwch hefyd adnabod a gweithredu ar y cysylltiad rhwng Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ac iechyd meddwl. Mae mynd i'r afael



â'r materion hyn nid yn unig yn dda i deuluoedd a chyfleoedd bywyd unigolion yn yr hirdymor ond hefyd ar gyfer gwella lefelau gwirioneddol a chydabyddedig trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn cymunedau. Efallai eich bod yn ymwybodol o'r cynllun peilot sydd wedi ei gynnal ym Mhen-y-bont ar Ogwr ar fynd i'r afael â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. A gallai'r wobwr lwyddiannus ddiweddar a roddwyd i Gymru am y gwaith a wnaed ar Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod oddi wrth Gronfa Arloesedd yr Heddlu fod yn ddefnyddiol i chi ar gyfer dysgu a rhannu arfer da a threialu ymagweddau newydd wrth fynd i'r afael â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth [yma](#).

Yr wyf fodd bynnag eisiau gweld sut yr ydych yn bwriadu mynd i'r afael â'r gwasanaethau fel cyfanwaith. Byddai cymhwyso'r pum dull o weithio i'r mater hwn yn golygu y bydd gwasanaethau i deuluoedd mewn cyfiawnder troseddol, tai, gwasanaethau cymdeithasol, y blynyddoedd cynnar, camddefnyddio sylweddau, trais domestig ac eraill yn integredig ac effeithiol gan y byddai'n atal y sefyllfa rhag gwaethygu; yn ogystal â bod wedi eu trwytho gan brofiadau bywyd pobl a dealltwriaeth o'r hyn sy'n gweithio iddynt hwy a beth nad yw'n gweithio. Wrth helpu pobl i deimlo'n ddiogel, buaswn yn hoffi deall sut yr ydych yn bwriadu symud ymlaen i gomisiynu, adolygu a gwella'r gwasanaethau hyn yn ogystal â gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl fel eu bod yn y lle gorau i atal, ac ymateb i Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Yn ddiweddar bu Alyson Francis, Cyfarwyddwr Canolfan Cymorth Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, yn gweithio gyda fy swyddfa i ysgrifennu atoch i amlinellu nad un peth arall i dalu sylw iddo yw Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, ond cyfle i ailystyried sut yr ydym yn darparu gwasanaethau gyda'n gilydd sy'n gwneud synnwyr i'r teuluoedd sy'n eu derbyn. Gallai'r Ganolfan Cymorth Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod hefyd weithredu fel man canolog i FGCau rannu arfer. Mae Alyson a minnau hefyd ar banel [gwefinar Cyfnewidfa Arfer Da Cymru ar ddealltwriaeth o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod](#) a gynhelir ar y 7<sup>fed</sup> Tachwedd.

Mae'r fantais o weithio fel BGC yn golygu eich bod yn medru edrych ar broblem o nifer o bersbectifau a chydweithio gyda gwahanol bartneriaid i ddarganfod datrysiadau eithaf syml, yn aml drwy ail-ddylunio gwasanaethau gyda'ch gilydd a gyda'r bobl sy'n eu derbyn. [Roedd gwaith yr Athro John Shepherd ar economi'r nos](#) yng Nghaerdydd yn golygu edrych ar drosedd oedd berthnasol i alcohol o nifer o bersbectifau gan gyflwyno mesurau oedd yn lleihau trosedd. Rydym yn aml yn delio â mater argyfyngus sy'n effeithio ar ein gwasanaeth gan anghofio edrych o'n cwmpas a sylweddoli y dylai fod yna ddull ataliol arall o edrych ar y broblem. Mae rhannu gwybodaeth a gwaith seiliedig ar dystiolaeth yn hynod bwysig os am atal ymddygiad troseddol neu eithafol sydd, wrth gwrs, yn dibynnu ar wybodaeth gymunedol, ymddiriedolaeth a hyder. Mae'r Cynghrair Tystiolaeth Ddefnyddiol NESTA wedi cyhoeddi [Defnyddio tystiolaeth ymchwil](#) fel canllaw i gyrrff cyhoeddus i annog hyder wrth fabwysiadu ymagweddau newydd, ymyriadau byr, llym, gan unigolion â grym.

Mae canfyddiadau pobl o ddiogelwch yn aml yn wahanol i ymddygiadau troseddol gwirioneddol mewn cymunedau. Felly, gallai ymroi i facsimeiddio eich cyfraniad i'r saith nod llesiant eich helpu i fabwysiadu dulliau gwahanol o ddwyn cymunedau at ei gilydd a chynyddu cydlyniad. Fel arweinyddion asiantaethau lleol, mae gennych rôl allweddol i'w chwarae yn y gwaith o gynorthwyo cydlyniad cymunedol. Mae potensial eich rôl yn y maes hwn yn mynd tu hwnt i adeiladu capasiti cymunedol, a hynny drwy hwyluso rhwydweithio a chydweithredu

a darparu hyfforddiant i grwpiau cymunedol a chyflogwyr. Dim ond i ryw raddau y gall yr agweddau hyn tuag at gymorth cymunedol fynd i'r afael â'r problemau a wynebir gan bobl a chymunedau. Sut ydych chi'n mynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau systemig sy'n atal pobl, cymunedau a gweithwyr rhag defnyddio'u hyfforddiant neu eu gwybodaeth, neu sy'n eu hatal rhag cyrchu'r gwasanaethau a allai helpu? Ydych chi wedi ystyried sut y gallech wella gwasanaethau presennol fel y gallent ddarparu ymagwedd ataliol - atal problemau megis Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod cyn iddynt ddigwydd - drwy gomisiynu'r gwasanaethau hyn yn wahanol? Mae'r ymchwil a ddogfennwyd yn [“What Works in Community Cohesion”](#) yn rhoi cyfeiriadau defnyddiol i FGCau ar wahanol ddimensiynau cydlynad cymunedol. A allai gweithio gyda chymunedau roi datrysiadau newydd i helpu pobl i deimlo'n ddiogel?

Rwyf wedi annog pob BGC i rannu syniadau a dysgu gyda chydweithwyr ar draws Cymru ac mae nifer o FGCau eraill yn edrych ar amcanion a blaenoriaethau tebyg i hwn, yn cynnwys, Caerffili, Caerdydd a Phen-y-bont ar Ogwr.

### ***Blaenoriaeth 2 – Llesiant a Byw'n Annibynnol:***

Mae llesiant yn ymwneud nid yn unig ag iechyd, ond ein bywydau cymdeithasol, ein teimladau o berthyn, ein hamgylchoedd adeiledig a naturiol, ein hincwm a'n bywyd cymdeithasol - pob un ohonynt yn benderfynyddion ehangach iechyd. Wrth gymryd camau i gwrdd â'r amcan hwn, buaswn yn eich cynghori i edrych ar asedau Sir y Fflint – ar gyflwr yr amgylchedd naturiol, yr ysbryd cymunedol a threftadaeth yr ardal. Nid yw pobl yn aml yn gwella eu hiechyd am fod y gwasanaethau cyhoeddus yn dweud wrthynt am wneud hynny, ond oherwydd eu bod hwy eu hunain yn sylweddoli gwerth eu bywydau a phwysigrwydd cadw'n iach am amser hwy. Dim ond drwy ennyn ymgyfraniad pobl yn barhaus i ddeall beth sydd yn bwysig iddynt y gallwch ddechrau effeithio ar newid ymddygiad. Mae gennych rôl mewn ystyried pa gyfleoedd a allai fod eu hangen ar bobl i wella eu hiechyd eu hunain, y gwasanaethau sydd arnynt eu hangen i wella o afiechyd a chreu'r amgylcheddau adeiledig cywir i facsimeiddio iechyd a llesiant pobl.

Mae'r flaenoriaeth hon yn cysylltu â nifer o'ch blaenoriaethau eraill ac rwy'n dymuno ailadrodd y byddech wrth asesu pa mor integredig yw eich gwasanaethau, yn fwy tebygol o ddarganfod datrysiadau gwell ar gyfer cwrdd â sialensiau poblogaeth sy'n heneiddio ac anghydraddoldeb iechyd drwy archwilio'r tensiynau rhwng polisiau a darpariaeth, a gwrando ar y rhai sy'n derbyn eich gwasanaethau. Bwriedir i'r pum dull o weithio roi ffrâm i chi ar gyfer ystyried y fath faterion gyda'ch gilydd. Yn nhermau poblogaeth sy'n heneiddio ac anghydraddoldebau iechyd, gofynnwch i chi eich hunain a yw'r ddarpariaeth bresennol yn addas ar gyfer rheoli'r mater hwn sydd ar gynydd a ble allai fod yna feysydd ag arnynt angen mwy o weithredu ar y cyd? Ar hyn o bryd, prin fod gwasanaethau cyhoeddus a gwasanaethau iechyd yn delio â'r galw presennol ac, yn anffodus, mae llawer yn edrych ar fodolau traddodiadol 'argyfwng' i ddelio â hyn. Dyma lle dylai'r pum dull o weithio fod yn herio eich dull o feddwl. Mae'r gwaith yr ydych chi wedi ei wneud wrth gyflwyno cymunedau sy'n gyfeillgar i Dementia ac ystyried dulliau y gallwch drwyddynt amddiffyn a gwella gwasanaethau hamdden yn enghreifftiau da o feddwl integredig a hoffwn eich gweld yn adeiladu ar hyn.

Gall tlodi, camdriniaeth, gwahaniaethu a ffurfiau eraill o anafanteision gael effeithiau parhaus ar lesiant plant a phobl ifanc gan effeithio'n ddifrifol ar eu tebygrwydd o sicrhau dyfodol ffyniannus, iach, diogel a chymdeithasol weithgar. Mae cyfleoedd yn ystod plentyndod yn allweddol a'r ymyriadau cadarnhaol a roddir yn eu lle yn awr gan Gymru i amddiffyn a darparu ar gyfer plant yn helpu i sicrhau dyfodol mwy llewyrchus, iach a chydlynol i Gymru. Dylid rhoi ystyriaeth i ba mor dda mae cyrff cyhoeddus a BGCau yn cynnwys hawliau plant yn y broses ymgynghori, gwneud cynlluniau a datblygu polisiau, gan alluogi plant i ddysgu am eu hawliau a'u grymuso i chwarae rôl weithgar yn eu cymunedau. I gynorthwyo'r gwaith hwn, mae pecyn cymorth yn cael ei dreialu a bydd ar gael cyn diwedd y flwyddyn. Byddai'r swyddfa Comisiynydd Plant yn hapus i roi cyngor i chi ar ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a mabwysiadu ymagwedd tuag at sicrhau llesiant cenedlaethau'r dyfodol sy'n talu sylw i hawliau plant.

Drwy eich asesiad llesiant, edrychoch ar dueddiadau hirdymor poblogaeth sy'n heneiddio gan nodi y bydd y galw am ofal iechyd a gofal cymdeithasol yn debygol o gynyddu ac y bydd y capasiti i ddarparu hyn yn her. Mae'n bwysig i sefydliadau dwrio'n ddyfnach i mewn i'w data i ddeall y tueddiadau hyn wrth iddynt ystyried sut i gynllunio yn awr ar gyfer yr hirdymor. Gwelaf eich bod wedi nodi bod yn Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn darparu cynnig deddfwriaethol yn hyn o beth, felly buaswn yn hoffi gweld dylanwad amlwg y BGC ar y Gwasanaethau Cyhoeddus rhanbarthol a'r Bwrdd Partneriaeth Llesiant i sicrhau eu bod yn cymryd y camau i gwrdd â'ch amcanion.

Yn ogystal ag ystyried y pwysau ar wasanaethau, hoffwn eich cyngori i adnabod cymaint o ased yw'r boblogaeth hyn yn Sir y Fflint yn nhermau gofalu, gwirfoddoli a chyfrannu i'r economi. [Mae gwaith y Comisiynydd Pobl Hyn](#) yn arbennig o ddefnyddiol wrth archwilio'r camau y gallech eu cymryd i gwrdd â'r amcan hwn ac mae'n cynnwys ei chyfarwyddyd diweddar i FGCAu. [Mae'r adroddiad hwn gan Young Foundation](#) yn rhoi ysbrydoliaeth ar 'Arloesi ffyrdd gwell o fyw yn hwyr mewn bywyd' gan herio'r seilos traddodiadol yr ydym yn gweithio ynddynt. Gall creu cymunedau ac amgylcheddau hyblyg cyfeillgar i oed, atal pobl rhag bod ag angen gofal cymdeithasol, rhag cael eu hynysu, rhag dioddef afiechyd neu gael damwain yn eu cartrefi. [Mae ymchwil ar Heneiddio'n Dda yng Nghymru](#) wedi dangos hyn, ac yn awgrymu bod unigrwydd yn ymwneud llawn cymaint â bod ar ben eich hunan yn gorfforol ag ydyw â theimlo bod gennych rywbeth i'w gyfrannu i gymdeithas. Yn ein heconomi sy'n rhannu, a fedrai fod yna ddatrysiadau technegol ar-lein a fedrai atal arwahanrwydd, megis rhannu, neu drafnidiaeth gymunedol wedi ei chysylltu â'r cyfryngau cymdeithasol? Mae'r cysyniad o '[Hypervillage](#)' a ddatblygwyd gan FutureScape yn dychmygu pentrefi wedi eu cysylltu gan eu hasedau, [sy'n annog pobl mewn cymunedau gwledig i elwa ar dechnoleg](#). Sut ydych chi wedi meddwl am y posibilïadau hirdymor o fanteisio ar dechnoleg i ddatrys y mater hwn? Sut fedr pobl hyn ddod yn fwy cysylltiedig â chyfleoedd cymdeithasol a gwirfoddoli? A oes gwirfoddolwyr ar hyn o bryd yn ymgyfrannu yng ngwaith y BGC i'ch helpu i gwrdd â'ch amcanion? Mae [Cyngor Cymuned Solfach](#) yn Sir Benfro'n enghraifft ddiddorol o'r modd y mae gwirfoddolwyr a phobl hyn wedi elwa o gynllun i leihau arwahanrwydd a gwella llesiant. Gwn eich bod yn un o'r ychydig awdurdodau sydd wedi cadw eich stoc dai a'ch bod yn adeiladu cartrefi Cyngor a gallai hyn gynnig cyfle i chi feddwl a chynllunio'n arloesol ar gyfer cwrdd ag anghenion poblogaeth sy'n heneiddio.

Mae parhau i ddysgu drwy gydol oes wedi profi i fod yn fanteisiol i lesiant iechyd meddwl a chorfforol pobl, yn ogystal â llesiant cymdeithasol. Mae yna gyfle gwirioneddol yma i chi ystyried sut i facsimeiddio eich cyfraniad i'r nodau llesiant. Sut fedrwyd chi annog gweithgareddau sy'n hybu celf, diwylliant, dysgu'r iaith Gymraeg, gofalu am gynefinoedd naturiol, creu mentrau tyfu bwyd cymunedol, er enghraifft, sy'n helpu gyda llesiant pobl? Gan edrych i'r hirdymor, sut fedr y gweithgareddau hyn atal rhai achosion o afiechyd - rhai y gellid eu hatal - a ddiodefir gan bobl ac sy'n amharu ar eu hannibyniaeth? Mae strategaeth Cyngor Celfyddydau Cymru yn amlinellu rhai o'r manteision i iechyd, cydlyniaid a sgiliau'r boblogaeth sy'n deillio o ymgyfrannu mewn gweithgareddau creadigol, a gallai hyn eich helpu i adnabod sut y gall prosiectau fod o fantais fawr i'ch sefydliadau. Gallai cydweithio gyda chyrrff cyhoeddus cenedlaethol sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf, megis y Cyngor Celfyddydau, Chwaraeon Cymru ac Amgueddfa Cymru fod yn ddefnyddiol yn hyn o beth; os gwelwch yn dda gadewch i fy nhim wybod os hoffech gysylltu ag unigolion perthnasol yn y sefydliadau hyn. Mae yna lawer o enghreifftiau da o brosiectau sy'n ymroi i ddwyn pobl at ei gilydd i ddysgu sgiliau newydd, cymdeithasu ac adeiladu eu cydnerthedd nes ymlaen yn eu bywydau, megis [Men's Sheds Cymru](#) sy'n digwydd ar draws Cymru, y gallai'r BGCau eu hannog a'u cynorthwyo.

Yn gysylltiedig â'ch blaenoriaethau eraill, gan adeiladu ar y gwaith yr ydych eisoes wedi ei wneud ar gymunedau cyfeillgar i Dementia, mae gan Gymru gyfle i ddatblygu tai sy'n cwrdd yn well â newid demograffig, gan addasu technoleg i alluogi pobl i fyw yn annibynnol am amser hwy. Mae rhaglenni fel [Dinasoedd Cyfeillgar i Oed Sefydliad Iechyd y Byd](#) wedi annog a chydabod y dinasoedd hynny sydd wedi gwneud eu hunain yn fwy cyfeillgar i oed gan addasu adeiladau, cynlluniau trafniadaeth a rheolau cynllunio, sy'n galluogi pobl hŷn i gadw'n iach ac mewn cysylltiad â phethau sydd o bwys iddynt am amser hwy. Mae [Laguna Woods](#) y ddinas gyntaf yn yr Unol Daleithiau sydd wedi ei neilltuo i bobl hŷn a maestrefi Marjala yn y Ffindir yn enghreifftiau o ddylunio sy'n addas ar gyfer galluoedd lluosog. Yn ogystal â chyfrifoldebau'n ymwneud â chynllunio a seilwaith dylunio, mae yna nifer o brosiectau arloesol byd-eang sy'n annog tai preifat sy'n rhannu cyfleusterau, tai a gefnogir, a chartrefi sy'n cael eu rhannu. [Mae myfyrwyr yn byw heb dalu rhent mewn cartrefi gofal](#) mewn cyfnewid am gymdeithasu a darparu gofal sylfaenol i'r trigolion hŷn; mae Awstralia a Seland Newydd wedi cyflwyno [cynlluniau Rhannu Cartref](#) ac, fel rhan o strategaeth ddemograffig y llywodraeth, mae'r [Almaen](#) wedi cyflwyno tai rhyng-genhedlaeth i bobl hŷn a theluoedd ifanc mewn angen. Yn Singapore, rhoddir grant o \$50,000 i bobl ifanc os yr ydynt yn barod i symud i fyw o fewn 1 cilomedr i'w neiniau a'u teidiau. Mae'r rhain i gyd yn gamau arloesol effeithiol.

Cefais fy nghalonogi i weld eich bod yn ymroi i ddeall yr effaith y gall eich sefydliadau chi eich hunain ei gael ar y flaenoriaeth hon drwy, er enghraifft, annog y gweithlu i gynnal eu llesiant eu hunain. Mae'r saith maes o newid yn y Ddeddf yn fan cychwyn ar gyfer yr effaith y gallwch ei gael, sef: cynllunio corfforaethol, cynllunio ariannol, cynllunio gweithlu, caffael, asedau a rheoli perfformiad a risg, y gweithgareddau cyfundrefnol creiddiol lle byddai cymhwysu'r pum dull o weithio'n sicrhau bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy'n fframio sut yr ydych yn gweithio. Dylech weld y rhain fel glasbrint ar gyfer llwyddiannau cyflym i'r BGC. Fel gwasanaethau cyhoeddus rydych yn cyflogi llawer iawn o boblogaeth Sir y Fflint a bydd gan lawer o'ch gweithwyr deuluoedd sydd hefyd yn byw yn yr ardal. Buaswn yn eich cynghori i werthfawrogi'r dylanwad y gallwch ei gael dros sefydliadau eraill hefyd.

Mae yna nifer o ddulliau gwahanol o gymryd camau i gwrdd â'r amcan hwn ac enghreifftiau ar draws y byd o ymagweddau arloesol. Mae hyn nid yn unig yn gwneud synnwyr ariannol (mae afiechyd sy'n berthnasol i'r gweithle yng Nghymru yn costio o leiaf £500m y flwyddyn) ond mae'n gwella llesiant trigolion Sir y Fflint. [Mae'r Times yn cyhoeddi rhestr flynyddol o'r 100 cwmni gorau](#); ac yn medru asesu pa rai sydd orau am sicrhau 'llesiant' ac mae gwledydd fel [Sweden](#) yn uwch ar y rhestr na Phrydain, am sicrhau bod eu staff yn iach ac yn gweithio i eithaf eu gallu. Yn nes adre, mae cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Phrifysgol Caerdydd, "[Cymru Iach ar Waith](#)" yn llawn o adnoddau a chanllawiau i'ch helpu i greu gweithlu iach. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi sefydlu [Hyb Iechyd a Chynaliadwyedd Cenedlaethol](#) i gydlynu eu gwaith hwy eu hunain o gwmpas y Ddeddf, a thrwy eich cynrychiolydd BGC, gallech ddarganfod ei bod yn ddefnyddiol i gysylltu â'r tîm cenedlaethol am ragor o dystiolaeth a gwybodaeth.

Mae BGCau eraill sy'n edrych ar amcanion tebyg yn cynnwys, Castell-nedd Port Talbot, Caerdydd, Conwy/Dinbych, Sir Fynwy a Phowys.

### **Blaenoriaeth 3 Cydnerthedd Cymunedol**

Pan fyddwch yn pennu amcanion a chmau fel BGC, mae angen i chi ddangos eich bod wedi ystyried maccsimeiddio eich cyfraniad i'r saith nod llesiant. Golyga hyn ddefnyddio'r diffiniadau o'r nodau (yn hytrach na dim ond y teitlau) i archwilio beth fedrwch chi ei wneud yn wahanol gyda'ch gilydd ar gyfer Sir y Fflint. Er enghraifft, wrth ymroi i ddrafftio amcanion a chmau i gwrdd â'r flaenoriaeth hon, sut ydych chi'n meddwl am weithio gyda'ch gilydd i greu cymunedau deniadol, hyfyw, diogel â chysylltiadau da? Rydych wedi datgan y flaenoriaeth hon ar gydnerthedd - o fewn y saith nod llesiant mae'r diffiniad cyfreithiol hwn yn berthnasol i 'genedl sy'n cynnal a gwella amgylchedd fioamrywiol naturiol gydag ecosystemau iach sy'n cynorthwyo cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol gyda'r gallu i addasu i newid (er enghraifft y newid yn yr hinsawdd)'. Bydd angen i bob BGC ddangos eu hamcanion ac ymroi i facsimeiddio eu cyfraniad i'r saith nod llesiant. Rwy'n eich cynghori i ddefnyddio'r saith nod llesiant fel ffrâm ar gyfer llunio eich syniadau ar y flaenoriaeth hon, a fydd yn dod â llawer o fanteision i'ch meysydd blaenoriaeth eraill, fel y nodir gennyf isod.

Mae gen i ddiddordeb i glywed eich bod yn ymroi i ysbrydoli llesiant cymdeithasol yn seiliedig ar le gan atal gwasanaethau cyhoeddus mewn cymunedau rhag dod i ben. Yn fy ymateb i'ch asesiad llesiant, dywedais y buaswn yn hoffi eich gweld yn dwyn yn ei flaen ddarlun mwy ansoddol o asedau a heriau mewn gwahanol gymunedau ar draws Sir y Fflint. Wrth ymroi i gwrdd â'r flaenoriaeth hon, mae deall y gwahaniaethau rhwng cymunedau a sut mae hyn yn effeithio ar lesiant, yn ganolog i lwyddiant y BGC. Rwy'n dymuno gweld pob BGC yn datblygu dealltwriaeth ddyfnach o'r modd y gallant sianeli ysbryd cymunedol i gynnwys weithredu cadarnhaol. A'r ffordd orau o ddysgu hyn yw drwy brofiadau pobl sy'n byw yno. Os yr ydych o ddifrif ynglŷn â gwneud hyn, bydd angen i chi ennyn ymgyfraniad eich staff ac ail-bwrpasu eich adnoddau fel eu bod yn mynd o le i le i siarad â phobl. Mae cyflwyno prosiectau gyda'ch gilydd yn adeiladu ymddiriedolaeth rhwng cymunedau â'ch gwasanaethau gan arwain at ganlyniadau mwy cadarnhaol.

Gallai gwranddo ar brofiadau bywyd pobl roi i chi fewnwelediad pwysig o'r modd y mae gwahanol gymunedau'n gweithredu a ble byddai eich gwasanaethau ar eu mwyaf defnyddiol. Mae gwasanaethau cyhoeddus yn aml yn anfon pobl at wasanaethau eraill ac yn aml yn anghofio amdanynt pan fyddant yn gadael ein desg. Gall integreiddio eich gwasanaethau yn well, gwella rhannu gwybodaeth, a gwranddo'n astud ar asedau'r person arbennig hwnnw, olygu ymateb mwy ataliol amserol ac effeithiol - helpu pobl i helpu eu hunain. Mae'r enghraifft hon ['Why poor people don't plan long-term'](#) yn rhoi mewnwelediad i'r rhwystrau sy'n wynebu pobl wrth oresgyn anghydraddoldeb ac mae'r astudiaethau achos a gynhwysir yn yr adroddiad hwn gan [Locality](#) yn dangos costau ariannol a chymdeithasol o fethu mabwysiadu ymagwedd holistig ac ataliol tuag at fywydau pobl.

Buaswn yn cynghori pob un o'ch sefydliadau i ymrwymo i Safonau Cyfranogaeth Genedlaethol a gweithio gyda [Participation Cymru](#) a fedr gynorthwyo eich swyddogion i ennill y sgiliau sy'n hanfodol ar gyfer ymgyfraniad effeithiol ac ystyrlon. Gallai [Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru](#) eich helpu i ystyried cynlluniau bancio amser, i roi enghreifftiau o gyd-gynhyrchu da a'ch helpu i adnabod ac ymgysylltu ag arweinyddion cymunedol.

Fel yr ydych wedi cydnabod mae'n siŵr, mae ennyn ymgyfraniad pobl i greu cymunedau mwy deniadol a hyfyw yn arwain at welliannau mewn iechyd, yn aml welliant mewn manau agored gwyrdd (ac felly mae'n cael effaith cadarnhaol ar fioamrywiaeth a'r amgylchedd) ac yn creu mwy o gydlynid mewn cymunedau. Mae teimlad o berthyn i gymuned yn hanfodol ar gyfer llesiant. Buaswn yn eich herio i wneud y cysylltiadau hyn yn glir wrth bennu eich amcanion a'ch camau. Pwy arall allai fod angen i chi gydweithio â hwy i archwilio'r gwahanol ffyrdd o weithredu? Ymgyfraniad a chydweithrediad pwy sydd arnoch ei angen i ennill dealltwriaeth o'r cysylltiadau hyn? Buaswn yn eich cynghori i ennyn ymgyfraniad a chydweithrediad 'rhai anarferol' wrth ddeall gwerth hyn i agweddau eraill o lesiant - mae hyn yn golygu symud i ffwrdd o'r arfer o ennyn ymgyfraniad pobl â diddordeb uniongyrchol mewn mater a bod yn barod i chwilio am bobl a sefydliadau a fedr herio syniadau drwy fynd i'r afael â phroblem drwy gyfrwng arbenigedd mewn maes gwahanol. Mae cydweithio gyda gwahanol bobl a defnyddio'r diffiniad o'r saith nod llesiant fel canllaw yn medru rhoi camau i chi eu cymryd i gwrdd â'r amcan hwn sy'n cyfrannu i Sir y Fflint fwy cyfartal hefyd. Ceisiwch gael plant a phobl ifanc i ymgyfrannu drwy ysgolion; manteisiwch ar wybodaeth busnes a'r sector economaidd; ystyriwch rôl y Cynghorau Cymuned a'r trydydd sector wrth gysylltu pobl â'i gilydd hefyd. Defnyddiwyd eich Cyngor Tref a Chymuned i ddiffinio ardaloedd cymunedol ar gyfer eich asesiad llesiant. Pa rôl fedran nhw chwarae wrth wireddu'r flaenoriaeth hon gyda'r BGC? Sut mae landlordiaid cofrestredig yn ymgyfrannu yng ngwaith y BGC? Pa rôl fedr sefydliadau gwirfoddol a chymunedol ei chwarae yn y fan hon? [Cynhyrchodd y CGGC wybodaeth ehangach](#) ar sut mae'r trydydd sector yn chwarae rôl yn y gwaith o gyfrannu i'r saith nod llesiant a allai fod yn ddefnyddiol yn hyn o beth.

Ar gyfer gwella eu hiechyd a dechrau symud, bydd y mwyafrif o bobl yn ymgyfrannu'n unig mewn rhywbeth sy'n hwyl ac o les iddynt hwy, felly sut fedr wch chi ddefnyddio chwaraeon, treftadaeth, iaith, gweithgareddau awyr agored a diwylliant i alluogi pobl i gymryd rhan? Mae yna gyfle gwirioneddol i ystyried sut y gallwch facsimeiddio eich cyfraniad i'r saith nod llesiant. Sut fedr garddio cymunedol, tyfu bwyd a hyd yn oed gadw gwenyn gael effaith cadarnhaol ar eich amgylchedd naturiol gan helpu Sir y Fflint i fod yn fwy cyfrifol yn fyd-eang a galluogi pobl i fwyta'n iach? Mae dwyn pobl at ei gilydd gyda'u gwahanol ddiwylliannau, coginio, celf a pherfformio'n creu

cydlyniad a theimlad o berthyn - sy'n cysylltu â'ch amcan cyntaf. Sut fedrai pobl gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol i'w helpu i deimlo'u bod yn ymgyfrannu ac o bosib brofi gwellhad yn eu hiechyd?

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn gweithio gyda fy nhîm i ddeall y ffordd orau o gynorthwyo BGCau yn eu hymdrech i gynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg fel y nodir yn '[Cymraeg 2050](#)', drwy ddefnydd o'r Gymraeg mewn cymunedau. Yn yr un modd mae [strategaeth Cyngor Celfyddydau Cymru'n](#) amlinellu rhai o'r manteision i iechyd, cydlyniad a sgiliau'r boblogaeth sy'n deillio o ymgyfrannu mewn gweithgareddau creadigol. [Mae'r Rhaglen Comisiynu Diwylliannol, a ariennir gan Gyngor Celfyddydau Lloegr](#) yn ymroi i helpu comisiynwyr gwasanaethau cyhoeddus i ddeall sut y gallant wella canlyniadau drwy integreiddio celfyddyd a gweithgareddau diwylliannol gydag ystod o wasanaethau, yn cynnwys iechyd meddwl a llesiant pobl hŷn a chomisiynu seiliedig ar le. Dim ond drwy roi hwb i bobl y gallwch ymroi i dyfu ymgyfraniad, helpu pobl i ddatlu cysylltiadau cymunedol eu hardal a chreu manteision ehangach i iechyd. Eto, gallai cydweithio gyda chyrrff cyhoeddus cenedlaethol sydd ynghlwm wrth y Ddeddf eich helpu i weld sut y gall y camau yr ydych yn eu cymryd i gwrdd â'r amcan hwn facsimeiddio eich cyfraniad i bob un o'r nodau.

Wrth annog gwirfoddoli, mae pobl nid yn unig yn creu cydlyniad cymunedol (sy'n cysylltu â'ch blaenoriaeth ddrafft gyntaf), cynnal eu llesiant a'u hannibyniaeth (sy'n cysylltu â'ch ail flaenoriaeth ddrafft) gwella eu sgiliau gyda'r potensial i wella'u hamgylchedd, ond hefyd yn gwneud cyfraniad amhrisiadwy i ddiwylliant, cydnerthedd a chydlyniad cymunedau. Fel yr awgrymir gan eich asesiad, mae gwirfoddolwyr yn tueddu i fod yn rhai sydd wedi mynd heibio i oed gweithio - sy'n cysylltu â'ch amcan cynharach ar gynnal llesiant ac annibyniaeth. Mae eich cynllun drafft yn cynnig gwir gyfle i gysylltu'r weithred o wirfoddoli â chanlyniadau cydlynol i unigolion a chymunedau. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn ymgyfrannu'n unig mewn rhywbeth sy'n effeithio'n uniongyrchol arnynt hwy, eu teulu neu'r man lle maent yn treulio amser ac yn aml gall hyn arwain at ganlyniadau llawer mwy fel y dengys y gwaith a wnaed gan '[Nurture Development](#)'. Datblygu Cymuned sy'n seiliedig ar Asedau. Mae yna enghreifftiau o fentrau cymunedol, mentrau cymdeithasol, cynlluniau ynni cymunedol a throsglwyddo asedau fel canlyniad i bobl yn dod at ei gilydd o gwmpas achos cyffredin ac mae hyn yn rhoi i chi gyfle i ddefnyddio'r pum dull o weithio yn Sir y Fflint a macsimeiddio eich cyfraniad i bob un o'r nodau.

Fel y nodwyd gennych, mae'r modd y mae eich sefydliadau'n ystyried y pum dull o weithio yn nhermau eu hystâd gyhoeddus yn medru herio busnes-fel-arfer. Gallai agor tir ac adeiladau i'r gymuned fod yn ddull o annog perchnogaeth gymunedol, gan ddod â phobl at ei gilydd mewn ardaloedd lle nad oes cyfleuster cymunedol, a chaniatáu gwell defnydd o'r amgylchedd naturiol. Rwy'n gwybod bod yna nifer cynyddol o enghreifftiau o hyn y Sir y Fflint ac, ar draws y DU, mae caledi wedi golygu bod adeiladau, tir a gwasanaethau wedi eu trosglwyddo i berchnogaeth cymunedau. Mewn llawer achos mae wedi cynyddu llesiant y bobl sy'n ymgyfrannu a rhoi pwrpas a sgiliau newydd iddynt. Mae'r [Grŵp Gweithgor Asedau Cenedlaethol Llywodraeth Cymru](#) wedi nodi rhai enghreifftiau Cymreig y byddwch efallai'n dymuno eu harchwilio, ond mae yna lawer o sefydliadau eraill sy'n hybu gwell defnydd o dir ac asedau sy'n eiddo i'r cyhoedd, megis [Shared Assets](#), [Nurture Development](#) a [Locality](#) gyda'r bwriad o annog cymunedau i ffynnu.

Sut ydych chi'n meddwl am y tueddiadau hirdymor parthed y modd y mae pobl yn ymgyfrannu mewn rhywbeth? Mae cymunedau'n bodoli tu allan i ofod ffisegol mewn gofod rhithwir, ac mae hyn ar gynydd. Mae Atos yn awr wedi cyhoeddi [Digital Vision for Wales](#). Mae digideiddio'n golygu bod y byd yn awr yn lle gwahanol ac yn ôl yr argoelion bydd hyn yn parhau dros yr hirdymor. Mae [Digital Childhoods](#) o Barnados yn dangos pa mor gyflym mae technoleg yn symud a'r modd y mae plant yn awr yn defnyddio gwybodaeth, er bod [Ymddiriedolaeth Carnegie](#) wedi rhybuddio yn erbyn y canfyddiad bod pob person ifanc yn llythrennog yn ddigidol â ganddynt fynediad i'r seilwaith digidol. Sut mae eich sefydliadau'n harneisio pŵer technoleg i'ch helpu i gwrdd â'r amcan hwn? Sut ellid ei ddefnyddio mewn dull cadarnhaol. Pa newidiadau sydd angen i chi eu gwneud hwyrach i'ch systemau sefydliadol a'ch polisiau i alluogi pobl i ymgyfrannu mwy mewn cymunedau a llunio gwasanaethau lleol? Sut fedrwch chi ddefnyddio technoleg i gasglu gwybodaeth gymunedol ac ennyn ymgyfraniad pobl? Pa newidiadau fedrech chi eu gwneud i'ch systemau sefydliadol a pholisiau i alluogi pobl i ymgyfrannu mwy mewn cymunedau, a llunio gwasanaethau lleol? Sut fedrwch chi ddefnyddio technoleg i gasglu gwybodaeth gymunedol ac ennyn ymgyfraniad pobl? Rwy'n gweld gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru fel rhai sydd wedi aros yn y 2000au cynnar yn y ffordd y maent yn galw trigolion ynghyd i neuadd gymunedol ar gyfer 'ymgysylltu' yn hytrach na harneisio pŵer technoleg mewn dull cadarnhaol. Ar hyn o bryd mae plant rhwng 5 ac 16 mlwydd oed ar gyfartaledd yn treulio chwe awr a hanner bob dydd o flaen sgrin; [28% o bobl ifanc yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol](#) fel eu prif ffynhonnell newyddion [a 43% o 'genhedlaeth y mileniwm' yn cael eu sbarduno i wneud cyfraniadau ariannol drwy sianelau cymdeithasol](#). Mae yna gyfle gwirioneddol i ymgysylltu â phobl yn y ffordd sydd fwyaf cyfleus iddynt hwy ac sy'n rhan o'u bywyd bob dydd, nid yn orchwyl ychwanegol. Mae ['Sir Fynwy Agored'](#) yn enghraifft o lwyfan ar-lein sydd wedi rhagweld sut y gallai pobl gyfrannu tuag at wella'u hardal yn y dyfodol, gyda chyfleoedd i rannu syniadau, i ofyn am farn y gymuned, cychwyn prosiect a chwilio am wirfoddolwyr neu adnoddau.

Mae'n galonogol i weld eich bod wedi cychwyn ystyried sut y gallwch alluogi cymunedau eu hunain i berchenogi eu hasedau hwy eu hunain drwy gyflwyno cynlluniau megis presgreibio cymdeithasol. Mae yna nifer o fodelau o bresgreibio cymdeithasol a modelau iechyd amgen, ond awgryma tystiolaeth bod mabwysiadu ymagwedd wahanol tuag at iechyd yn medru cael manteision niferus. Mae'r [astudiaeth hon ar bresgreibio cymdeithasol ym Mryste](#), yn rhoi peth mewnwelediad i'r gwelliannau mewn iechyd meddwl ac iechyd yn gyffredinol. Dangosodd rhaglen ddogfen ddiweddar y BBC ['The doctor who gave up drugs'](#), sawl enghraifft o'r modd y gall ymagweddau amgen tuag at bresgreibio tabledi gael effaith fwy holistig, cadarnhaol sy'n para am amser hir, ar fywyd rhywun - gyda phobl yn dod yn fwy ffit yn gorfforol ac yn fwy iach yn feddyliol heb ddibyynu ar bresgripsiynau. Fel y gwyddom yn aml iawn nid yw rhoi gwybodaeth i bobl ar sut i newid eu harferion yn gweithio; yn aml mae angen mwy o anogaeth cyn i newid mewn ymddygiad ddigwydd. Mae newid yn aml yn 'glynu' pan fydd pobl yn ymgyfrannu mewn gweithgareddau cymdeithasol a diwylliannol gyda'i gilydd; er enghraifft, darganfu'r adroddiad Nudjed ['Behaviour Change is a Team Sport'](#) bod cael pobl at ei gilydd yn cynyddu patrymau ymarfer corff. Mae eu gwaith wedi cynnwys gweithio'n llwyddiannus gyda mamau ifanc yng Nghymoedd De Cymru i ennyn eu hymgyfraniad mewn gweithgareddau mwy corfforol. Buaswn yn annog y BGC i ddefnyddio'r pum dull o weithio i herio ail-bwrpasu adnoddau a chynorthwyo mentrau eraill tebyg. Wrth ystyried hyn, mae yna gyfleoedd i gydweithio gyda sefydliadau eraill megis yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac Ymddiriedolaethau Bywyd Gwylt i



ddatblygu ymagwedd sir-gyfan. [Mae'r prosiect Coed Actif Cyfoeth Naturiol Cymru wedi](#) cychwyn yn Sir y Fflint ac mae'n enghraifft o gael pobl allan i'r awyr agored, i amddiffyn eu hamgylchedd a mwynhau'r effeithiau cadarnhaol ar iechyd a llesiant.

Rwyf wedi sylwi yn fy ymateb i'ch asesiad llesiant bod yna ddehongli ardderchog o faterion arbennig, yn cynnwys iechyd meddwl. Mae eich asesiad wedi tynnu sylw at yr amgylchiadau niferus lle gall pobl brofi salwch meddwl, wedi archwilio'r cysylltiadau rhwng salwch meddwl mamol ar iechyd babanod a phlant, a'r cysylltiadau rhwng salwch meddwl a chamddefnyddio sylweddau. Rwy'n edrych am y math hwn o ddehongli wrth i chi son am y modd yr ydych yn cydweithio i atal y materion hyn rhag digwydd neu waethygu. Mae oddeutu 50% o bobl â phroblemau iechyd meddwl parhaus yn dangos symptomau erbyn iddynt gyrraedd 14 mlwydd oed, a llawer pan fyddant yn llawer ieuengach. Os ydy'r symptomau'n bodoli pan fydd plentyn mor ifanc, beth ellir ei wneud i atal problemau nes ymlaen mewn bywyd? Os gwyddom fod y GIG ar gyfartaledd yn gwario dros £21 miliwn ar bresgripsiynau gwrth-iselder, sut fedrwn ni weithredu'n gynt? Mae [Caerdydd wedi treialu gwersi iechyd meddwl i blant](#) ac mae adroddiad newydd oddi [wrth Respublica a Barnado: Making young minds matter](#) yn amlinellu ymyriadau cynnar (megis cwnsela yn yr ysgol yng Nghymru) a fedr gael effaith cadarnhaol ar iechyd meddwl. Sut fedr y BGC sbarduno'r Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bwrdd Rhanbarthol Llesiant i gymryd camau i gwrdd â'r amcanion hyn? Buaswn hefyd yn eich cynghori i ennyn ymgyfraniad plant a phobl ifanc mewn dealltwriaeth o unrhyw faterion yn ymwneud â chyrchu'r gofal a'r cymorth cywir, gan ddylunio gwasanaethau gwahanol a gwerthuso effeithiau'r ymagwedd hon. Mae cysylltiad amlwg rhwng camddefnyddio alcohol a chyffuriau a'ch blaenoriaeth ar gymunedau diogelach. Buaswn yn eich cynghori i ennyn ymgyfraniad plant a phobl ifanc yn y broses o ddeall unrhyw faterion sy'n ymwneud â chyrchu'r gofal a'r cymorth priodol, dylunio gwahanol wasanaethau a gwerthuso effeithiau'r ymagwedd hon.

Mae nifer o FGCau yn ymroi i bennu amcanion tebyg yn cynnwys Bro Morgannwg, Caerffili, Sir Benfro, Cwm Taf a Phen-y-bont ar Ogwr.

#### **Blaenoriaeth 4 – Economi a Sgiliau:**

Yn ddiweddar rhoddoch i fy nhîm weithgareddau drafft ar gyfer y flaenoriaeth hon, yn cynnwys cynorthwyo datblygiad cyflogaeth a safleoedd tai; adolygu strategaethau i gynorthwyo rhyddhau tir ar gyfer y fath safleoedd; cynorthwyo'r achos dros fuddsoddiad mewn gwasanaethau trafndiaeth lleol megis Metro Gogledd Ddwyrain Cymru; adolygu eich polisïau trafndiaeth chi eich hunain i annog gweithwyr i ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus; adolygu eich polisïau caffael chi eich hunain i sicrhau manteision cymunedol i gyflenwyr nwyddau a gwasanaethau lleol ac isranbarthol; amddiffyn a datblygu eich rhaglenni prentisiaethau chi eich hunain fel cyflogwyr a gweithio gyda'r Gwasanaeth Gyrfaoedd, ysgolion, addysg bellach ac uwch, a chyflogwyr i roi i bobl ifanc yr ystod ehangaf posibl o ddewisiadau gyrfael i'w helpu i gwrdd ag anghenion cyflogwyr sy'n recriwtio.

Mae'n galonogol i'ch gweld yn ystyried sut mae eich sefydliad chi eich hunan yn medru cael effaith ar y flaenoriaeth hon. Fel gyda'ch holl flaenoriaethau, hoffwn weld ystyriaeth amlwg o'r modd y mae'r pum dull o weithio'n llunio'ch syniadau ar y gweithgareddau y byddwch yn eu gweithredu. Mae eich asesiad llesiant yn nodi cymhlethdod y twf

economaidd a'r heriau a wynebir mewn gwahanol rannau o'r sir. Yma, dylech ystyried sut mae eich blaenoriaethau'n rhyng-gysylltu - sut mae statws economaidd yn effeithio ar ddisgwyliad oes ac iechyd, pwysigrwydd yr amgylchedd ffisegol a naturiol ar ein hiechyd a'n gallu i weithio, a sut y gallai rhoi sgiliau i bobl ar gyfer y dyfodol roi datrysiadau i sector gofal y cydnabyddir ei fod o dan bwysau. Yn gysylltiedig â'ch blaenoriaethau eraill, trafniadaeth ac ynni yw'r ddau peth mwyaf y gallwn ddylanwadu arnynt i effeithio'r newid yn yr hinsawdd. Mae gennych gyfrifoldeb ym maes trafniadaeth, cynllunio a seilwaith ac mae'n rhaid i chi ystyried hyn yn awr o bersbectif y saith nod llesiant a'r pum dull o weithio ar gyfer fframio eich meddyliau. Sut fedrwch chi gynllunio, dylunio a lleoli datblygiadau'r dyfodol (fel rhan o'ch Cynllun Datblygu Lleol) mewn ffordd sy'n cyfrannu i Gymru sy'n fwy cyfrifol yn fyd-eang, a Chymru gydnerth? Sut fedrwch chi ymroi i greu cymunedau sy'n hyrwyddo cydraddoldeb, â ganddynt ddiwylliant bywiog ac iaith Gymraeg sy'n ffynnu ac sy'n ddiogel, cydlynol, gyda chysylltiadau da ac sy'n hyfyw.

Mae'n gadarnhaol i glywed bod eich gwaith ar ddatblygu economaidd yn ennill momentwm gyda Bargen Twf Gogledd Cymru. Rwyf wedi cynghori BGCau eraill yng ngogledd Cymru i gydweithio'n rhanbarthol gyda Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Yn gyffredinol, byddaf yn edrych i weld sut mae sefydliadau'n gweithio tuag at eu hamcanion llesiant ac yn alinio'r rhain gyda chydweithio rhanbarthol. Sut fedr y BGC ddylanwadu ar eraill i weithio gyda hwynt i gwrdd â'u hamcanion a'u camau? Mae hyn yn gofyn am bartneriaethau aeddfed, cydweithio a rhannu dyheadau ar y cyd ar draws y rhanbarth. Fel yr wyf wedi dweud yn gyhoeddus am brosiectau economaidd mawr arall, dylai'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fod yn ddull o lunio gyda'ch gilydd sut mae eich gweithgareddau'n cael eu cynllunio a'u cytuno - yn hytrach na darn o ddeddfwriaeth yr ydych yn asesu eich gweithgareddau (sydd eisoes wedi eu penderfynu) yn ei herbyn. Gan fod Cyngor Sir y Fflint yn arwain gwaith sy'n gysylltiedig â'r Bwrdd Uchelgais, mae eich BGC yn chwarae rhan ganolog wrth lywio'r cyfleoedd hyn ac elwa o'r buddsoddiad. Buaswn yn eich cynghori, fel pobl mewn safleoedd o arweinyddiaeth, bod angen i chi ddylanwadu ar y trafodaethau presennol gan gadw llesiant economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol pobl ar draws yr ardal mewn golwg. Ychydig o effaith a gaiff cynnydd mewn Cynnyrch Domestig Gros ar leihau anghydraddoldebau a byddai dehongli gwerth y fargen mewn termau economaidd yn unig yn gamarweiniol. Oes, mae cyfle economaidd cadarnhaol yn y fan hon, ond sut fedrwn ni greu cydbwysedd yn ein cyfrifoldebau i ddatblygu rhanbarth sy'n gynaliadwy ac sy'n rhoi pobl yn y canol. Yn yr un modd, gobeithio fod [fy llythyr i'r rhai a ymgyfrannodd yn Rhagfyr 2016](#) yn rhoi i chi beth cyngor ar y mater, ac yn ddiweddar [gwneuthum sylw hefyd mewn ymateb](#) i adroddiad Dr Mark Lang a'r Athro Terry Marsden ["Re-thinking Growth: Toward the Well-being Economy."](#)

Cefais fy nghalonogi i weld eich bod yn meddwl am eich rolau eich hunain yn y dasg o wella llesiant Sir y Fflint. Fel yr wyf eisoes wedi nodi, mae'r arweiniad i'r Ddeddf yn pennu saith maes lle mae angen newid: cynllunio corfforaethol, cynllunio ariannol, cynllunio gweithlu, caffael, asedau a rheoli perfformiad a risg yw'r gweithgareddau cyfundrefnol creiddiol lle byddai cymhwyso'r pum dull o weithio'n sicrhau bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy'n fframio sut yr ydych yn gweithio. Fel rhan o'ch Cynllun Datblygu Lleol, drwy'r Ddeddf Teithio Llesol, ac yn y gwaith yr ydych yn ymgyfrannu ynddo'n lleol, mae gennych rôl mewn cynllunio, tai, a thrawsgludo, ac mewn creu lleoedd sy'n addasadwy ac a fydd yn medru newid, o leiaf dros y ddwy genhedlaeth nesaf. Mae system drafniadaeth integredig Gogledd Ddwyrain Cymru'n darparu cyfle cyffrous i feddwl yn holistig

am y modd y bydd angen i bobl deithio o gwmpas y rhanbarth, a pha am wynderau y gallent fod yn chwilio amdanynt yn agos at orsafoedd a chanolfannau a thrafnidiaeth.

Parthed trafndiaeth, mae eich asesiad wedi amlygu eich bod yn dymuno deall yn well effaith trafndiaeth ar ansawdd aer ac mae'n nodi bod yna 'botensial arwyddocaol i gyrrff y sector cyhoeddus helpu i leihau allyriadau trafndiaeth drwy systemau a seilwaith trafndiaeth a ariennir gan yr awdurdod lleol, a chynllunio teithio y gall pob un o sefydliadau'r sector cyhoeddus ymgymryd ag ef'. Efallai eich bod wedi gweld fy [ymyriadau cynharach](#) a [diweddar ar y cynlluniau ar gyfer ffordd liniaru'r M4](#), ac ymhlith rhesymau eraill dros eu herio, teimlaf nad yw'r cynllun arfaethedig wedi talu digon o sylw i allu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion eu hunain. Mae hyn yn cynnwys methiant i ystyried y tueddiadau sy'n dod i'r amlwg parthed trafndiaeth, megis cynnydd cyflym mewn teithwyr rheilffordd, ymddangosiad cerbydau heb yrwyr (a ragwelir) a allai leihau tagfeydd, a'r newid ym mhatrymau gwaith sydd eisoes yn dangos bod llai o bobl yn teithio i'r gwaith bob dydd. Hefyd, mae llai o bobl ifanc yn dysgu gyrru, sy'n golygu bod yn rhaid i chi edrych ar drafndiaeth mewn dull gwahanol. Yn hytrach, sut fedrwn ni edrych ar y cyfleoedd y gellir eu gwireddu drwy gyfrwng [cerbydau heb yrwyr yn](#) ein cymunedau ac yn ein heconomi? Hefyd, bydd yna [fwy o gerbydau glanach](#) dros y blynyddoedd sydd i ddod; mae'r erthygl hon yn disgrifio'r cynnydd mewn busnesau newydd a fydd yn ffocysu ar gerbydau trydan, hydrogen a heolydd wedi eu creu o ddeunyddiau gwahanol. Sut fedrwn chi gymryd camau i gwrdd â nifer o'ch blaenoriaethau? Byddai symud tuag at seilwaith carbon isel hefyd yn eich helpu i amddiffyn eich amgylchedd.

Yn yr un modd â'ch syniadau ar gymryd camau i gwrdd â'r flaenoriaeth hon ar annog gweithwyr i newid eu hymddygiad, gallech fel BGC hefyd ddefnyddio eich dylanwad i annog pobl i ddefnyddio eu cerbydau'n llai aml, i wresogi eu cartrefi'n fwy effeithlon a defnyddio llai o ddeunyddiau. [Mae cyfrifydd ôl troed amgylcheddol y WWF](#) yn dwyn ein sylw ni i gyd at ein potensial i effeithio newid, ac mae gan [NESTA ganllaw](#) ar weithio gyda chymunedau i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, yn cynnwys 'Yr Her Fawr Werdd', lle mae cyfranogwyr wedi newid eu ffordd o fyw i leihau eu hól troed carbon. Beth fedrwn chi ei wneud i annog y newid hwn mewn ymddygiad? Mae rhai BGCau eraill yn ystyried darparu pwyntiau ar gyfer gwefru cerbydau trydan mewn gwahanol rannau o'r sir; ac yn annog staff i rannu ceir gan annog teithio llesol neu drafndiaeth gyhoeddus.

[Mae gan Awdurdodau Lleol ddyletswydd i hybu teithio llesol](#). Sut fedrwn chi ymroi i adeiladu a gwella'r seilwaith ar gyfer gweithio a beicio. Mae dinas [Freiburg yn aml yn cael ei chrybwyll fel enghraifft o ddatblygu](#) trefol a thrafnidiaeth gyhoeddus llesol integredig fel rhan ganolog o'i dylunio. Heblaw am flaenoriaethu trafndiaeth llesol a chynaliadwy, fforddiadwy a thrafnidiaeth gyhoeddus ddibynadwy, mae strategaeth osgoi traffig yn golygu ei bod yn ddinas o bellteroedd byr, lle mae anghenion pobl yn cael eu diwallu o fewn pellteroedd byr. Gellir dod o hyd i enghraifft o ardaloedd gwledig gyda llai o boblogaeth yn yr Iseldiroedd, lle mae cynlluniau trafndiaeth sy'n ymateb i alw yn golygu bod gwasanaeth tacsï masnachol ar y cyd yn cael ei ddarparu mewn 111 o orsafoedd trenau - caiff ei gynorthwyo'n ariannol gan Dutch Railways.

Fel y crybwyllais uchod, bydd yn hollbwysig bod y camau yr ydych yn eu cymryd yn cael eu hintegreiddio ar draws blaenoriaethau ac amcanion eraill. Mae'r amgylchedd yn ased i'ch economi lleol a dylid annog twristiaeth

gynaliadwy. Mae [Essen yn yr Almaen](#) yn debyg i Sir y Fflint, yn ei bod wedi ei hadeiladu ar ddiwydiant, a gafodd effaith niweidiol ar yr amgylchedd. Nawr yn dilyn ymdrech bendant awdurdodau i adfer y dyfrffyrdd a chreu manau agored gwyrdd yn y ddinas, mae'r UE wedi ei henwi'n Brifddinas Werdd Ewropeaidd 2017 ac mae hyn yn dwyn twristiaeth, trigolion newydd a busnesau newydd niferus. Sut fedr wch chi ennyn cymunedau i ddod o hyd i lwybrau teithio llesol, creu cyfleoedd bach a helpu busnesau bach lleol? Gall ffocysu ar ddiwylliant ac iaith yr ardal hefyd eich helpu i facsimeiddio eich cyfraniad i bob un o'r nodau. Sut fedr eich polisïau hefyd hyrwyddo cyfartaledd mewn busnes ac ymroi i gynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg. Gwnaeth Alun Davies AC ddatganiad yn ddiweddar ar [ariannu ar gyfer tyfu busnesau bach dwyieithog](#) er mwyn cynyddu amlygrwydd Cymraeg yn ein cymunedau. Wrth ymroi i alluogi entrepreneuriaeth a thwf, beth am gyflwyno cynlluniau newydd sy'n mynnu bod pobl yn sefydlu mentrau cynaliadwy sy'n maxsimeiddio'u cyfraniad i'r saith nod llesiant?

Er bod yna ffactorau rhanbarthol, cenedlaethol a byd-eang sy'n effeithio ar lesiant economaidd a dim datrysiadau hawdd, mae yna gamau y gallech eu cymryd fel BGC i annog twf economaidd ac adfywiad. Rhaid i chi ystyried pa rôl fedr wch chi ei chwarae fel arweinwyr y sector cyhoeddus a gwirfoddol a dylech werthfawrogi'r dylanwad y gallwch ei gael ar drefniadau partneriaethau a sefydliadau eraill yng Nghymru. I gymryd camau tuag at facsimeiddio eich cyfraniad i'r saith nod llesiant a gwella llesiant economaidd, bydd angen i chi fod yn ddewr pan fyddwch yn creu cronfa o adnoddau i'w rhannu, yn newid polisïau ac yn cymryd risgiau drwy roi cynnig ar ymagweddau gwahanol. Bydd angen i chi gyfleu'r newidiadau hyn o fewn pob un o'ch sefydliadau. Bydd angen i chi fod yn glir am y modd yr ydych wedi myfyrio ar y diffiniadau llawn o bob un o'r nodau llesiant, yn cynnwys y nod ar gyfer Cymru ffyniannus. I wneud hyn mae angen i chi dwrio'n ddyfnach i'r data a gwneud mwy o ddadansoddiad o'r hyn a olyga hyn i Sir y Fflint - lle mae lle ar gyfer arloesi; economi carbon isel, a'r potensial i sicrhau swyddi gweddus.

Er enghraifft, sut fedr eich gweithdrefnau caffael helpu i gwrdd â'r saith nod llesiant cenedlaethol? Sut fedr eich polisïau sefydliadol ymroi i helpu busnesau lleol cynaliadwy? Wrth gyfrannu tuag at leihau eich allyriadau, sut fedr cynorthwyo busnesau lleol helpu i leihau cludo nwyddau gan edrych ar ddatblygu cynaliadwy ehangach, nid yn unig ar werth economaidd? Mae gwasanaethau cyhoeddus Cymru'n gwario £6bn y flwyddyn ar nwyddau a gwasanaethau - mae hyn, wrth reswm, yn gyfle i edrych i weld sut fedrwn ni wneud pethau'n wahanol. [Mae Forum for the Future](#) wedi cyhoeddi adroddiadau ar hyn ac mae fy swyddfa'n gweithio gyda [Gwerth Cymru](#) i dreialu caffael cynaliadwy yng nghyd-destun y Ddeddf. Mae'r [adroddiad 'Closing the Circle'](#) ar yr economi cylchol ac 'Amgylchedd Cymru' a ysgrifennwyd gan Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru, yn ddefnyddiol. Mae'n dangos cyfle economaidd posibl i greu £1biliwn y flwyddyn erbyn 2035 drwy ddefnydd ymarferol o egwyddorion economaidd cylchol ac yn rhoi enghreifftiau ymarferol lle gall y sector cyhoeddus liniaru gwastraff ac adnoddau ym mhrosiectau'r dyfodol. Mae hwn yn gynydd o 12% yn nhrosiant sector yr amgylchedd adeiledig Cymreig ac mae'n cynhyrchu 7,300 o swyddi (gros).

Sut ydych chi wedi meddwl am y cyfleoedd economaidd hirdymor i Sir y Fflint? Mae swyddi sy'n bodoli nawr yn rhai nad oedd neb wedi clywed amdanynt pan adewais i'r ysgol a bydd yr un peth yn wir am ein plant. Mae'r [adroddiad Workforce of the Future](#) yn rhagweld y bydd 65 y cant o'r plant sydd yn awr yn cychwyn yr ysgol yn

gweithio mewn swyddi fel oedolion nad ydynt hyd yn oed yn bodoli eto. Sut fedrwn chi weithredu nawr ar gyfer yr hirdymor ac ymroi i roi i bobl ifanc y sgiliau a fydd yn addas ar gyfer y dyfodol? Pa sgiliau bywyd fydd eich plant yn debygol o fod eu hangen i lwyddo yn y dyfodol? Mae'r adroddiad *Dyfodol Gwaith* a'r adroddiad sydd newydd ei gyhoeddi, [Nesta Future of Skills: Employment in 2030](#) hefyd yn awgrymu bod gwaith seiliedig ar brosiectau'n debygol o ddod yn fwy cyffredin, gyda sgiliau fel creadigrwydd, cysylltedd, cyfathrebu a datrys-problemau yn llawer pwysicach yn y dyfodol na gwybodaeth benodol. Mae [adroddiad diweddar Ymddiriedolaeth y Tywysog 'Results for Life'](#) wedi darganfod bod pobl ifanc yn sylweddoli bod gwaith tîm, cyfathrebu a hyder mor werthfawr â graddau da wrth gael mynediad i'r gweithle. Sut ydych chi'n cynllunio i ennyn ymgyfraniad pobl o bob rhan o Sir y Fflint i chwilio am eu cyngor ar greu cyfleoedd? Sut fedr eich sefydliadau gynnig prentisiaethau i bob oed i ddysgu'r sgiliau hyn?

[Yn ôl McKinsey](#), gallai technoleg awtomeiddio 45 y cant o'r tasgau y telir pobl i'w gwneud ar hyn o bryd. Mae hwn yn gyfle ac o bosibl yn risg; fel [yr awgrymir gan yr erthygl hon](#) mae gennym gyfrifoldeb i adnabod hyn a meddwl am fanteision. Mae gweithgynhyrchu'n gryf yn Sir y Fflint, sut ydych chi wedi ystyried effaith y rolau a gaiff eu disodli gan awtomeiddio? Sut fedrwn chi weithredu nawr, fel darparwyr gwasanaethau cyhoeddus, i annog dysgu a swyddi yn yr economi sylfaenol a chymdeithasol, sy'n ymwneud â gofal lleol, manwerthu a'r diwydiannau bwyd, sy'n llai tebygol o gael eu hawtomeiddio yn y dyfodol ac yn llesol i'r economi lleol? Mae adroddiad diweddar gan [Sefydliad Joseph Rowntree](#) yn amlygu gwerth yr economi cymdeithasol wrth greu swyddi, cryfhau sgiliau a chyflogadwyedd. Sut ydych chi wedi ystyried y tueddiadau hirdymor hyn wrth bennu eich camau a galluogi pobl i addasu eu sgiliau ar gyfer ennill bywoliaeth yn y dyfodol?

Mae'n galonogol bod gennych [gynllun sgiliau rhanbarthol a chyflogaeth ar gyfer Gogledd Cymru](#). Mae'n addawol i glywed bod y cydweithio hyn ar gynydd. Bydd yn bwysig i integreiddio'r gwaith hwn gyda'ch blaenoriaethau eraill a gwaith y BGC. Fel y dywedais yn gynt, mae hyn yn ymwneud â mwy nag ennill gwerth economaidd. Gwelaf eich bod wedi ennyn ymgyfraniad ystod eang o bartneriaid yn hyn o beth a bod eich BGC yn cynnwys cynrychiolwyr o Addysg Bellach ac Addysg Uwch. Efallai eich bod yn dymuno ystyried pwy arall a allai fod angen i chi gydweithio gyda hwynt wrth ddatblygu'r amcanion drafft, megis ysgolion, busnesau, a mentrau cymdeithasol. Pa gyfrifoldebau cymdeithasol a fabwysiadwyd gan y sector preifat yn yr ardal? Sut mae busnesau yn dod at ei gilydd i sbarduno newid cadarnhaol, hirdymor ac a oes gan y BGC unrhyw ddylanwad yn hyn o beth? Pa gyfleoedd y gellid eu cynnig i fentrau cymunedol newydd drwy gydweithio rhwng y BGC, y sector preifat a darparwyr addysg? Pa ymchwil sydd wedi cael ei wneud am yr economi lleol? Sut fedrech chi annog busnesau lleol i ddefnyddio'u cyfrifoldebau cymdeithasol a sicrhau gwell dysgu ar gyfer pobl iau a phobl hŷn?

Mae'r BGCau eraill sy'n drafftio amcanion a chamau tebyg yn cynnwys Powys; Caerdydd; Ceredigion; Sir Benfro; Sir Fynwy a Chaerffili.

### **Blaenoriaeth 5 - Amgylchedd:**

Rwyf eisoes wedi eich cyngori ar lawer agwedd o'r flaenoriaeth hon, gan ddangos y rhyng-gysylltu rhwng yr hyn yr ydych wedi ei anfon at fy nhîm. Mae'r amgylchedd yn sail i'n llesiant, ac felly, yn effeithio ar ein llesiant, eich amgylcheddau a'n diogelwch, ein cydnerthedd, ein heconomi a'n diwylliant. Fel BGC, dylech ymroi i archwilio'r gweithrediadau pendant y gallwch eu cyflawni mewn cysylltiad â'r flaenoriaeth hon ac ymroi i integreiddio ar draws eich blaenoriaethau eraill hefyd. Er enghraifft, er mai dim ond ychydig o allyriadau yng Nghymru sy'n deillio o'r sector cyhoeddus, rydych chi mewn sefyllfa unigryw i ddylanwadu'n fwy eang ar allyriadau mewn meysydd megis cludiant nwyddau, ynni, defnyddio tir a chaffael. Cefais fy nghalonogi i weld eich bod yn ystyried lleihau eich ôl-troed carbon. Mewn cysylltiad â'ch blaenoriaeth i lesiant a llygredd aer o drafndiaeth, gall diwydiant a threfoli achosi cancr, clefydau anadlol, niwed i organau a lleihau disgwyliad oes. [Yn ddiweddar cyhoeddodd Llywodraeth Cymru lefelau allyriadau carbon](#) wedi eu hisrannu i lefelau Awdurdod Lleol, a [Galwad am Dystiolaeth](#) i archwilio'r mecanweithiau mwyaf effeithiol ar gyfer gwireddu sector cyhoeddus carbon-niwtral erbyn 2030. Byddwch wedi cael gwahoddiad i ddigwyddiad ar 9<sup>fed</sup> Tachwedd: i archwilio sut fedr y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ennyn ymgyfraniad pobl mewn cydweithio ac integreiddio eu gwaith, i dalu mwy o sylw i oblygiadau hirdymor carbon yn eu gweithrediadau, a helpu i atal effeithiau'r newid yn yr hinsawdd rhag gwaethygu ymhellach.

Mae gennym ymrwymadau clir i gwrdd â hwynt yn nhermau lleihad mewn carbon; mae'r DU wedi addo y byddir yn gwaredu allyriadau carbon yn gyfan gwbl erbyn 2050 ac mae pob un o Lywodraethau Cymru wedi addo creu rhagor o swyddi gwyrdd. Ond er bod Cymru yn fan â photensial enfawr ar gyfer darparu ynni naturiol, dim ond 10% o drydan Cymru yn 2013 a ddarparwyd drwy ynni naturiol. Llynedd, cynhyrchodd Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd Cynulliad Cymru'r adroddiad ['Dyfodol Ynni Craffach i Gymru'](#) gyda 19 argymhelliad ar y modd y gallai Cymru drawsnewid ei hymagwedd tuag at ynni. Yn fwy diweddar, mae Ynni Clyfar y DU wedi cynhyrchu'r adroddiad ['A Smart Energy Future for Rural Areas'](#) sy'n rhoi enghreifftiau ac astudiaethau achos o ardaloedd gwledig ar draws y DU sydd wrthi'n cyflawni'r trawsnewid hwnnw. Mae prif seminar [Fforwm Polisi Cymru](#) i'w chynnal ar 7fed Rhagfyr eleni, gyda ffocws ar flaenoriaethau ar gyfer polisi ynni, tyfu'r sector yng Nghymru a chynyddu buddsoddi mewn ynni adnewyddadwy.

Fel BGC dylech archwilio sut i wella seilwaith, lleoli manau agored cyhoeddus ac ailwampio eich adeiladau eich hunain mewn ffordd sy'n maximeiddio eich cyfrannid i'r saith nod llesiant. Meddylwch am y saith swyddogaeth gorfforaethol a amlinellir yn y Ddeddf uchod a beth fedrwch ei wneud i greu newid ym mhob un; er enghraifft, mae gennych lawer o ystâd gyhoeddus. Mae [adroddiad Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Cymru ar seilwaith gwyrdd](#) yn amlinellu sut mae seilwaith gwyrdd yn darparu ystod o fanteision pendant sydd wedi eu profi, a manteision economaidd cost-effeithiol, cymdeithasol ac amgylcheddol. Mae gan [Gomisiwn Dylunio Cymru](#) hefyd astudiaethau achos ac adnoddau ar ddylunio sy'n ffocysu ar ddefnyddwyr, yn maximeiddio effeithlonrwydd ynni ac sydd wedi dangos y gall brysuero iachâd cleifion mewn modd arwyddocaol. Ym mhob un o'r meysydd hyn gall fy swyddfa eich cysylltu â'r bobl a'r sefydliadau a all fod yn medru eich helpu wrth i chi ddatblygu eich gwaith. Yn gysylltiedig â'ch blaenoriaeth ar yr economi, sut fedr seilwaith cynllunio hybu manteision ehangach, megis ['heolydd solar' cynhyrchu trydan adnewyddadwy](#) neu heolydd o [blastig sydd wedi ei ailgylchu](#), megis y rhai sy'n cael eu treialu yn Rotterdam? Sut fedr hyn gael ei gysylltu â chreadigaeth manau agored gwyrdd cymunedol - yn

unol â'ch blaenoriaethau eraill? Mae'r offer [Llunio fy Nhref](#) o Gomisiwn Dylunio Cymru yn adnodd rhyngweithiol i greu manau cymunedol sy'n eich annog i feddwl yn fanwl am rai o'r posibiladau.

Rydych wedi nodi yn eich asesiad llesiant pa mor bwysig yw amaeth i'ch economi lleol ac wedi ystyried y risgiau hirdymor i'r sector drwy golli swyddi a'r newid yn yr hinsawdd. I ba raddau y mae'r diwydiant ffermio'n deall y risgiau hyn? Gydag amaeth, coedwigaeth a physgota'n cyfrif am 7% o'r gweithlu, mae'r rhain yn feysydd a beryglir gan ein hinsawdd sy'n newid. Yn yr un modd, mae Sir y Fflint (a gogledd Cymru fel rhanbarth) yn mwynhau twristiaeth dda, sy'n gysylltiedig â'ch dyheadau economaidd, ac mae oddeutu 16% o bobl yn cael eu cyflogi mewn swyddi perthnasol. Mae'r rhain yn ddiwydiannau sydd mewn perygl arbennig oherwydd digwyddiadau tywydd eithafol ac mae adroddiad [Zero Carbon Britain's recent 'Making it Happen'](#) yn amlinellu'r cyfrifoldebau sydd gennym i gyd i genedlaethau'r dyfodol i weithredu yn awr ar y newid yn yr hinsawdd.

Yn y dyfodol mae effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn debygol o achosi sychder yn yr haf, sy'n golygu prinder dŵr, bioamrywiaeth sy'n dirywio a hyn yn effeithio yn ei dro ar amaeth ar draws Cymru. Rydym i gyd yn dibynnu ar ein hamgylchedd am incwm, bwyd, dŵr a hamdden ac awgrymaf bod angen i chi edrych ar y seilwaith critigol sydd yn y perygl mwyaf. Gall defnyddio'r saith nod llesiant i fframio eich ymagwedd helpu pob partner i ddeall eu cyfraniad i'r mater arwyddocaol hwn. A yw ymagweddau presennol yn ddigonol ar gyfer ymdopi? Sut fedrwyd chi ddefnyddio senarios i ddychmygu pa weithredu ataliol y gallech ei ddefnyddio i warchod amaeth, cyflenwadau dŵr a thrawsgludo mewn digwyddiad tywydd eithafol?

Dioddefodd llawer o gartrefi a busnesau llynedd yn y Sir y Fflint o effeithiau llifogydd, ac mae asesiadau llesiant yn dangos sut mae llifogydd yn effeithio ar iechyd a llesiant pobl am amser maith yn dilyn y digwyddiad.

[Amcangyfrifir y bydd niwed blynyddol i eiddo preswyl yn £22 miliwn](#), felly, mae deall sut mae gwahanol ddigwyddiadau tywydd yn effeithio ar gymunedau yn hollbwysig ar gyfer ei atal. [Dengys ymchwil gan Sefydliad Joseph Rowntree](#) nad yw polisi cyfredol ar newid hinsawdd yn mynd i'r afael yn ddigonol â llawer agwedd o lesiant a effeithir yn negyddol arnynt gan argyfyngau cysylltiedig â'r hinsawdd a bod llawer o gymunedau difreintiedig hefyd yn fwy tebygol o ddioddef mwy o golledion i lesiant fel canlyniad i ddigwyddiadau'r newid yn yr hinsawdd megis llifogydd. Mae'r astudiaeth ['Lle Dwfn' yng Nghanolfan Adfywio Rhagoriaeth Cymru yn Nhrefdegar](#) yn rhoi ysbrydoliaeth ar y modd y mae dealltwriaeth o le yn medru bod yn fanteisiol iawn i lesiant. Hoffwn weld y BGC yn ystyried effeithiau penodol ar gyfer Sir y Fflint yn ei gweithredu tymor byr, canolig a'r hirdymor. Mae prosiectau megis ['Glawlif' Dŵr Cymru'n](#) awgrymu dulliau y gallwn i gyd eu defnyddio i liniaru effeithiau llifogydd, gyda chymunedau'n chwarae rôl gyfartal.

Mae'n newyddion da i weld yn eich asesiad llesiant bod llawer o fusnesau'n gweithio mewn partneriaeth i warchod yr amgylchedd. Prif achos ansawdd aer gwael yw trefoli a datgoedwigo cysylltiedig, cynhyrchu, diwydiant (yn arbennig losgi tanwydd ffosil) a lefelau trafndiaeth, sy'n amlwg yn niweidio cynefinoedd naturiol y sir. Bydd cydweithio gyda busnesau wrth i chi benderfynu ar eich camau i gwrdd â'r amcan hwn yn bwysig ar gyfer amddiffyn a gwella'r tir ac atal dirywiad bioamrywiaeth. Ar gyfer pob un o'r camau hyn defnyddiwch y diffiniadau o nodau llesiant wrth feddwl sut y gallwch wneud rhywbeth gwahanol gan gael yr effaith mwyaf posibl, ynghyd ag

integreiddiad ar draws llawer o'ch camau drafft. Sut fedrwn chi alluogi cyfleoedd gwirfoddoli corfforaethol sy'n ymroi i wella cydnherthedd yr amgylchedd naturiol? Sut fedrwn chi annog cyfartaledd drwy eu gwirfoddoli, a chydlyniad o fewn rhai o'ch cymunedau? Mae gan [Busnes yn y Gymuned](#) ystod o ddulliau ymarferol ar gyfer busnesau ar sut i gydweithio a gweithredu i helpu i fynd i'r afael â materion amgylcheddol a chymdeithasol allweddol sy'n wynebu cymdeithas.

Ni fyddwn yn synnu i nodi bod Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eraill hefyd yn ystyried gosod amcanion sy'n ymwneud â gwarchod yr amgylchedd. Yn arbennig efallai y byddwn yn dymuno rhannu syniadau gyda BGCau Bro Morgannwg, Powys, Ynys Môn a Gwynedd, a Sir Fynwy.

**Gobeithiaf eich bod o'r farn fod y cyngor hwn yn ddefnyddiol i chi wrth i chi symud ymlaen i gyhoeddi eich cynllun llesiant. Os gwelwch yn dda cysylltwch â fy nhîm os yr ydych angen manylion cyswllt pellach ar gyfer unrhyw un o'r sefydliadau a'r adroddiadau a grybwyllwyd yn y llythyr hwn.**

Rwyf hefyd yn dysgu'r ffordd orau o gynghori, cynorthwyo a monitro sut mae cyrff cyhoeddus yn ceisio defnyddio'r pum dull o weithio a maximeiddio'u cyfraniad i'r saith nod llesiant, felly buaswn yn croesawu adborth oddi wrthyd chi, eich swyddogion cynorthwyol a Phwyllgor Craffu BGC Sir y Fflint ar sut yr wyf wedi dewis mynd ati i ymdrin â'r ddyletswydd statudol hon a'r cyngor yr wyf wedi ei roi.

Edrychaf ymlaen at dderbyn eich cynllun llesiant drafft ac os gwelwch yn dda cadwch mewn cysylltiad â mi a fy nhîm.

Cofion gorau,



Sophie Howe